Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir ac Organig





Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2026

ISBN 978-1-83745-034-3

Mawrth 2026

**CYNNWYS**


**Pwyntiau Pwysig** ..... **1**

- Cyflwyniad ..... 1
- Cyngor wrth lenwi'r SAF ..... 1
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF ..... 2
- Cwsmeriaid â thir bob ochr y ffin ..... 6
- Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir ..... 6
- PWYSIG – Newidiadau i Barseli Tir ..... 7

**Adran 1 – Dechrau Arni** ..... **8**

- Tudalen Hafan RPW Ar-lein ..... 8
- Gweld Ceisiadau ..... 10

**Yn ôl i'r cynnwys Adran 2 - SAF** ..... **13**

- Dechrau / Parhau â'ch SAF ..... 14
- Cyflwyniad ..... 17
  - SFS – yr Haen Opsiynol ..... 22
  - Y Cynlluniau Coetir ..... 23
  - Ffermio Organig - Cymorth ..... 24
  - Cynllun Troi'n Organig – Cydymffurfio ..... 26
- Manylion y Busnes ..... 27
  - Trefniadaeth y Busnes ..... 27
- Lefelau Stocio ..... 30
- Sylfaen Reoleiddio'r SFS ..... 33
- Hawliau Tir Comin ..... 34
- Data Caeau ..... 36
- Rhestr Data Caeau ..... 39
- Manylion Parseli Tir ..... 42
- Deiliadaeth ..... 44
- Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ..... 49
  - Cyfyngiadau. ..... 50
  - Crynodeb ..... 50
  - Tab Cynefin ..... 53
  - Tab Canopi coed ..... 67
  - Nodweddion dŵr – afonydd a nentydd ..... 89

**Cyfrifo 10% o Gynefin** ..... **97**

**SFS – yr Haen Gyffredinol – Arall** ..... **99**

**Atodlen 6 – Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu** ..... **104**

**Crynodeb** 107
Cynlluniau 107
Cnydau 108
**Cyfanswm Maint y Darnau Cynefin** 109
**Cyfanswm Main y Darnau Coetir** 110
**Cyflwyno** 111
Gwallau a Gwybodaeth 111
Tystiolaeth Ddogfennol 112
Datganiadau ac Ymrwymiadau 113
**Cyflwyno** 114
**Manylion Cysylltu** 116
Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid 116
Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal 116
**Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion arbennig** 117
Gwefan Llywodraeth Cymru 117
Gwlad 117

## Pwyntiau Pwysig

Dylech ddefnyddio'r llyfryn hwn i hawlio am Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir ac Organig.

Os ydych yn bwriadu hawlio am Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol 2026, cyfeiriwch at '*Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS),Cynlluniau Eraill ac Creu Coetir Datblygu Gwledig'*.

### Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi'ch  Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 ar gyfer tir sydd o dan eich rheolaetho yng Nghymru.

Cyn llenwi'ch SAF, dylech ddarllen

- y canllaw hwn
- '*Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canllawiau 2026'* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025
- '*Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026: llyfryn rheolau ar gyfer cynlluniau coetir ac organig wrth hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy'* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026'
- *Taflenni Ffeithiau Cynllun Ffermio Cynaliadwy Rheoleiddiol 2026*' diweddaraf.

Cafodd y SAF ei datblygu trwy gydweithrediad clos â ffermwyr, asiantwyr ffermwyr ac undebau ffermwyr, ac mae llawer ynddi i'ch helpu i'w llenwi'n gyflym ac yn hwylus.  Mae fersiwn ar-lein y SAF yn cynnig help â chwestiynau penodol ac yn dilysu rhai o'ch atebion yn awtomatig i'ch helpu i fod yn gyson yn eich atebion ac i osgoi camgymeriadau hawdd eu rhagweld.

Os nad ydych yn un o gwsmeriaid RPW Ar-lein, gallwch gofrestru trwy ddilyn y cyfarwyddiadau RPW Ar-lein: sut i gofrestru.  Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Amseroedd agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

- 2 o Fawrth i 15 o Fai 2026  (ac eithrio gwyliau banc):
  Llun i Gwener: 09:00 i 16:00

### Cyngor wrth lenwi'r SAF

Os ydych yn ei chael hi'n anodd llenwi'ch SAF ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar y rhif uchod i drafod yr help sydd ar gael.

Gall y staff yno esbonio ichi sut i lenwi'r cais, ond ni allant fod yn gyfrifol am yr hyn rydych yn ei hawlio neu ddim yn ei hawlio – eich cyfrifoldeb chi yw hynny.  Fe allech fynd ar ofyn cyngor proffesiynol hefyd cyn cyflwyno'ch SAF.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF**

Rhaid i'ch SAF gyrraedd Llywodraeth Cymru ddim hwyrach na chanol nos Dydd Gwener, **15 Mai 2026**. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd rhwng 16 Mai 2026 hyd at a chan gynnwys 9 Mehefin 2026 yn cael eu cosbi. Bydd ceisiadau a hawliadau sy'n cyrraedd ar ôl **9 Mehefin 2026** yn cael eu gwrthod.

Rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol** o ran **y rheol 550 awr** os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno erbyn 15 Mai 2026 ynghylch yr amod 550 awr, a bod ei hangen, caiff eich hawliad ei wrthod.

Rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol** o ran **dileu neu newid arwynebedd cynefin ar haen gyfyngedig** os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **31 Rhagfyr 2026**. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno i gefnogi dileu neu newid tir cynefin erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff y cais i ddileu neu newid ei wrthod.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer **Ffermio Organig - Cymorth** a/neu **Cynllun Troi'n Organig** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **31 Rhagfyr 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Darllenwch llyfrynnau canllawiau perthnasol am y cosbau am gyflwyno SAF a thystiolaeth ddogfennol yn hwyr.

**Wedi'u llenwi ar eich rhan**

Caiff yr wybodaeth ganlynol ei llenwi ar eich rhan ar eich SAF:

| Adran y SAF | Gwybodaeth wedi'i nodi ar eich rhan |
|---|---|
| Hawliadau | Bydd tic hawlio Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol, wedi cael ei lenwi ar eich rhan chi.<br><br>Tici hawlio SFS – yr Haen Opsiynol: Cynllun Troi'n Organig lle mae'n cofnodion yn dangos bod gennych Ddyfarniad Grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026.<br><br>Ticiau i hawlio yn Cynlluniau Coetir lle mae'n cofnodion yn dangos bod gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant.<br><br>**Sylwer:** Ni fydd tic i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Ffermio Organig - Cymorth. Os ydych am hawlio taliad, **rhaid rhoi tic ym mlwch hawlio Ffermio Organig – Cymorth yn yr adran Hawlio.** |
| Trefniadaeth y Busnes | Nifer yr unigolion yn y busnes yn ôl ein cofnodion cyfredol. |
| Tir Comin | Yr hawliau pori tir comin y gwnaethoch eu datgan llynedd.<br><br>**Sylwer: ni** fyddwn yn llenwi ymlaen llaw yr Hawl SFS yn erbyn yr Hawliau Tir Comin sydd gennych chi. Os ydych yn dymuno hawlio SFS – yr Haen Gyffredinol ar unrhyw hawliau tir comin |

| | |
|---|---|
| | sydd gennych chi**, bydd angen i chi dicio'r blwch hawlio SFS – yr Haen Gyffredinol yn erbyn yr Hawliau Tir Comin perthnasol.** |
| Data Caeau | Caeau sydd yn ôl ein cofnodion o dan eich rheolaeth lwyr ar 15 Mai 2026. Lle medrir, cofnodir cnydau, nodweddion parhaol wedi'u mapio ac arwynebeddau.<br><br>**Pwysig** - **Bydd angen i chi roi tic ar yr hawliad SFS - yr Haen Gyffredinol ar y dudalen data cae lle rydych yn ystyried bod y parsel tir yn gymwys ar gyfer SFS. Rhaid i chi hawlio ar bob parsel cymwys.**<br><br>Os ydyn ni'n gwybod bod gennych reolaeth lwyr ar barsel am gyfnod o 10 mis mewn blwyddyn galendr sy'n cynnwys 15 Mai, byddwn wedi llenwi'r darn 'Ar gael am 10 mis' ar eich rhan. Ambell waith, lle na fyddwn wedi gallu cadarnhau hyn, bydd angen ichi gadarnhau bod y cae ar gael ichi am 10 mis gan gynnwys 15 Mai.<br><br>Ticiau i hawlio Cynllun Troi'n Organig – dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynlluniau Coetir lle mae ein cofnodion yn dangos bod gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant.<br><br>**Pwysig:** Ni fydd ticiau i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Ffermio Organig – Cymorth. Os byddwch am hawlio'r taliad hwn, **bydd gofyn ichi roi tic yn y blwch hawlio Ffermio Organig – Cymorth (OFS) yn yr Adran Data Caeau wrth bob parsel cymwys rydych am hawlio taliad arno.** |

Byddwn wedi rhoi cymaint o fanylion eich caeau, gan gynnwys Nodweddion Parhaol anghymwys, ar eich SAF ar eich rhan â phosibl. Bydd hyn yn dibynnu a fyddwn wedi dilysu'ch datganiad yn y flwyddyn ddiwethaf neu wedi cynnal asesiad mapio ar y cae. Mae'r tabl isod yn dangos yr wybodaeth y gallwn ei llenwi ar eich rhan.

| | **NID OES** gennym wybodaeth wedi'i dilysu am y cae | Mae gennym wybodaeth wedi'i dilysu am y cae |
|---|---|---|
| Cyfeirnod y ddalen | ✓ | ✓ |
| Rhif y cae | ✓ | ✓ |
| Enw'r cae | ✓ | ✓ |
| Cod y cnwd | Ddim yn ei nodi | ✓ |
| Arwynebedd y cnwd | Ddim yn ei nodi | ✓ |
| Deiliadaeth | Ddim yn ei nodi | ✓ |
| Ar gael am 10 mis | Ddim yn ei nodi | ✓ |

**Dogfennau Ategol**

Rhaid cyflwynoyr holl ddogfennau ategol ar gyfer y SFS - yr Haen Gyffredinol o ran y rheol 550 awr os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Rhaid cyflwyno yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y SFS - yr Haen Gyffredinol o ran dileu neu newid arwynebedd cynefin ar haen gyfyngedig os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer **Ffermio Organig - Cymorth** a/neu **Cynllun Troi'n Organig** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Os na gyflwynir tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, bydd eich hawliad yn cael ei wrthod.

**Y dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen:**

| **Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol** | |
|---|---|
| 550 Oriau Llafur Safonol | • Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol<br><br>**Neu**<br><br>• Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achrededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud. |
| Tynnu neu ddiwygio ardaloedd cynefinoedd ar haen gyfyngiadau - cyfeiriwch at ganllawiau | • Arolwg / adroddiad ecolegol (gyda thystiolaeth o brofiad / cymwysterau'r ecolegydd/agronomegydd)<br>• Ffotograffau wedi'u geo-dagio o'r safle<br>• Cadarnhad a yw Asesiad Effaith Amgylcheddol ar yr ardal / cae wedi'i gynnal ar unrhyw adeg<br>• Gwybodaeth am reoli - e.e. pryd neu os caiff ei ailhadu, defnyddio gwrtaith, pori ac a gymerir silwair neu wair. |

| Cynllun Troi’n Organig | |
|---|---|
| Tystiolaeth os ydych yn 2 flynedd gyntaf o’ch Ddyfarniad Grant Cynllun Troi’n Organig | • Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB)<br>• Copi o'r cais Corff Rheoli Organig.<br>• Cynllun troi'n organig<br>• Hawlwyr garddwriaethol – cofnodion cnydau, anfonebau a derbynebau<br>• Hawlwyr sy’n godro: naill ai llythyr bwriad oddi wrth brynwr/prosesydd llaeth sy’n dangos y byddant, mewn egwyddor, yn prynu’r llaeth organig ar ôl ichi droi’n organig NEU gadarnhad ac esboniad oddi wrth y rheini sy’n prosesu llaeth ar y daliad, o sut ydynt yn bwriadu newid eu dulliau prosesu a’u cynnyrch fel ymateb i faint o laeth organig sydd ar gael. |
| Tystiolaeth os ydych ym mlynyddoedd 3 i 5 o’ch bod yn cael Contract Cynllun Troi’n Organig | • Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB). |

| Cymorth Organig | |
|---|---|
| Tystiolaeth, os ydych yn hawlio Cymorth Organig | • Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf<br>• Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol. Os nad oes gennych dystiolaeth eich bod yn gwerthu'n fasnachol, er enghraifft, gan nad yw'r cnwd yn barod i'w gynaeafu, e.e. gwinllan neu berllan sydd newydd ei sefydlu, efallai y gallwn eich talu os gallwch gyflwyno tystiolaeth, e.e. anfonebau ar gyfer y planhigion a / neu luniau geo-dag o'r cnwd yn y ddaear, i ddangos y bydd eich menter yn gweithredu ar raddfa fasnachol<br>• Os ydych yn hawlio ar gyfer llaeth, tystiolaeth o werthu llaeth organig. neu gynhyrchion sy’n deillio o laeth |

| | |
|---|---|
| | • Os oes gennych lai na 3 hectar o dir amaethyddol cymwys wedi'i gofrestru gyda Taliadau Gwledig Cymru yng Nghymru, mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos dros 550 o oriau llafur safonol:<br><br>Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol<br><br>**Neu**<br>Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achredededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achredededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud. |

**Cwsmeriaid â thir bob ochr y ffin**

Rhaid i bob cwsmer sydd â thir yng Nghymru lenwi a chyflwyno SAF Cymru. Peidiwch â chynnwys tir sydd mewn gwlad arall e.e. Lloegr, ar eich ffurflen Gymreig. Rhaid datgan y tir hwnnw ar ffurflen gais y wlad honno.

**Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir**

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i barseli tir ac unrhyw drosglwyddiadau tir o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r newidiadau ddigwydd. Llenwch gais **'Rheoli fy Nhir'** gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein i roi gwybod inni os yw perchennog neu denant y tir yn newid. Rhaid defnyddio '**Rheoli fy Nhir**' hefyd i gofrestru tir newydd ac i roi gwybod inni am newidiadau i nodweddion parhaol ac i ffiniau caeau.

Bydd angen prawf arnom mai chi sy'n berchen ar y tir neu fod gennych hawl i'w feddiannu pan fyddwch yn cofrestru neu'n cymryd tir newydd.

Os ydych yn berchen ar y tir rydych yn ei gofrestru, rhaid ichi gyflwyno'r canlynol:

- **Gweithred Teitl neu**
- **Copi o Gofrestr Teitl.**

**Rhaid** i'r dogfennau hyn gynnwys y map cysylltiedig.

Os ydych yn denant neu'n borwr ar y tir, rhaid ichi gyflwyno naill ai llythyr oddi wrth y perchennog i gadarnhau ei fod wedi rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'r tir at ddiben amaethyddol, gan gynnwys dyddiadau, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo gan bob parti. Ni fydd tystiolaeth arall yn ddigon a chaiff ei gwrthod.

Ni all adeiladau ac iardiau ond gael eu rhannu os oes ffin rwystrol yn bodoli a bod mynediad ar wahân ar gyfer y ddwy ardal.  Os nad oes ffin rwystrol a mynediad ar wahân ni chaniateir i chi rannu'r parsel tir presennol.

**PWYSIG – Newidiadau i Barseli Tir**

Os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd angen ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein cyn ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir.

**Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i'ch parsel cyn llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid ddiweddaru'r wybodaeth** unwaith eto.

Yn ôl i'r cynnwys

# Adran 1 – Dechrau Arni

## Tudalen Hafan RPW Ar-lein

Logiwch i mewn i’ch cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio’ch ID Defnyddiwr a Chyfrinair fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gellir cael mynediad i eich Cyfrif RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth neu One Login GOV.UK.

Efallai y bydd angen ichi ddilyn cyfarwyddiadau Mewngofnodi a Chofrestru os nad ydych wedi logio i mewn ers tro.  Os nad ydych yn gwsmer eisoes gydag RPW Ar-lein, gallwch gofrestru trwy ddilyn y cyfarwyddiadau RPW Ar-lein: sut i gofrestru.  Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.





### Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

- Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
- Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

#### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

#### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

#### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

#### Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni

Ar ôl mewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  (Caiff Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sy’n gweithredu ar ran y cwsmer weld y sgrin hon ar ôl iddyn nhw ddewis cwsmer o’r sgrin dewis cwsmeriaid.)




[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Gweld Ceisiadau

I weld ffurflen SAF, cliciwch naill ai (ar y tab ‘Hafan’) y botwm glas ‘Dechrau SAF 2026’; dolen ‘Ffurflen Cais Sengl 2026’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod;




neu (ar y tab ‘Ffurflenni’) dolen ‘Ffurflen Cais Sengl 2026’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Dewis Eich Ffurflen Cais Sengl

Rhaid i chi benderfynu pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano: Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol neu Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).  Byddwch yn dal i allu gwneud cais am gynlluniau tir eraill, gan gynnwys cynlluniau coetir ac organig os dewiswch y naill opsiwn neu'r llall.

Os ydych am wneud cais am gynlluniau organig neu goetir **yn unig**, dylech ddewis yr opsiwn Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS).

Os byddwch yn penderfynu wrth gwblhau eich cais, nad ydych bellach yn dymuno gwneud cais o dan y cynllun hwnnw.  Gallwch ddefnyddio'r botwm 'Dechrau Eto' i ddewis eto pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano.

Os ydych yn hawlio am BPS cyfeiriwch i '*Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS), Cynlluniau Coetir ac Organig*'.




Os ydych chi'n dewis hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Haen Gyffredinol, fe welwch neges wybodaeth fel y ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio'r blwch hawlio trwy ddamwain.  Bydd y neges hefyd yn eich hysbysu ar ôl i chi gyflwyno'ch SAF a gwneud hawliad am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, a bod y dyddiad cau cyflwyno SAF wedi mynd heibio (15 Mai 2026, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawlio hwyr) ni fyddwch yn gallu hawlio BPS mwyach.  Os oes gennych Hawliau BPS, ni fyddant ar gael ichi yn 2026 ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

[redacted] English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 24 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Dewis Eich Ffurflen Cais Sengl

Rhaid i chi benderfynu pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano. Byddwch yn dal i allu gwneud cais am gynlluniau tir eraill, gan gynnwys cynlluniau coetir ac organig os dewiswch y naill opsiwn neu'r llall. Os ydych am wneud cais am gynlluniau organig neu goetir **yn unig**, dylech ddewis yr opsiwn Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS).

Os byddwch yn penderfynu wrth gwblhau eich cais, nad ydych bellach yn dymuno gwneud cais o dan y cynllun hwnnw. Gallwch ddefnyddio'r botwm 'Dechrau Eto' i ddewis eto pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano.

Ar ôl i chi gyflwyno eich SAF a gwneud hawliad am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, a bod y dyddiad cau cyflwyno SAF wedi mynd heibio (15 Mai 2026, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawlio hwyr) ni fyddwch yn gallu hawlio BPS mwyach. Os oes gennych Hawliau BPS, ni fyddant ar gael ichi yn 2026 ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Os penderfynwch beidio â hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol 2026, gallwch wneud cais yn y blynyddoedd a ddaw.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar y dudalen Grantiau a Thaliadau Gwledig ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Ydych chi am wneud cais am:**

(●) Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol

Rydych chi wedi nodi eich bod yn gwneud cais am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol. Os yw hyn yn anghywir, dewiswch y Cynllun Taliad Sylfaenol neu gliciwch ar 'Yn ôl' i fynd yn ôl i dudalen hafan RPW Ar-lein.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch SAF a gwneud hawliad am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, a bod y dyddiad cau cyflwyno SAF wedi mynd heibio (15 Mai 2026, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawlio hwyr) ni fyddwch yn gallu hawlio BPS mwyach. Os oes gennych Hawliau BPS, ni fyddant ar gael ichi yn 2026 ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

( ) Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

Parhau | Yn ôl

Yn ôl i'r cynnwys

**Meysydd Busnes a Sectorau Amaethyddol**

Er mwyn gallu hawlio am SFS – yr Haen Gyffredinol mae'n rhaid i chi fod â Maes Busnes 'Amaethyddiaeth a Choetir Ffermydd'.

Rhaid ichi gadarnhau Sectorau Amaethyddol eich busnes sy'n cael eu rhedeg fel mentrau masnachol ar 15 Mai 2026. Bydd unrhyw newid a wneir yn effeithio ar gais SFS y flwyddyn ganlynol.

**Arweiniad ynghylch a yw tatws a gwreiddgnydau'n gnydau Âr neu Arddwriaeth:**

Er bod ffermio âr fel arfer yn cynnwys gwreiddgnydau, bydd eu categori'n gallu dibynnu ar eu graddfa ac ar y math o gnwd. Mae tatws yn cael eu hystyried yn gnwd âr, ond bydd tyfu rhai mathau o lysiau, fel moron, ar raddfa fach yn cael ei ystyried yn arddwriaeth.

Adolygwch eich Meysydd Busnes a'r Sectorau Amaethyddol a restrir a gwnewch unrhyw ddiweddariadau drwy tab Manylion y CRN, os oes angen.

Os yw eich Maes Busnes yn unrhyw beth heblaw 'Amaethyddiaeth a Choetir Ffermydd' ac yn gywir, dewiswch y botwm 'Yn ôl' i ddychwelyd i'r dudalen 'Dewi Eich Ffurflen Cais Sengl' a dewiswch 'Na' i hawlio o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol.

**Sylwer**: er mwyn diweddaru Sectorau Amaethyddol drwy Manylion Cwsmer, rhaid gosod eich Maes Busnes yn gyntaf i 'Amaethyddiaeth a Choetir Ffermydd'.

Mae rhagor o fanylion ar gyfer Meysydd Busnes ar gael yn '*RPW Ar-lein: diffiniadau o feysydd busnes*' ac ar gyfer Sectorau Amaethyddol i'w gweld yn '*Diffiniadau o Sectorau Amaethyddol a sut i ddiweddaru/diwygio*'.




Yn ôl i'r cynnwys

# Adran 2 - SAF

## Dechrau / Parhau â'ch SAF

Ar ôl pwyso'r botwm i ddechrau'ch SAF, fe welwch y dudalen Dechrau Cais fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gofalwch fod y manylion arni'n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach.  Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm 'Dechrau'.

**Sylwer**: Rhaid cyflwyno dogfennaeth ategol i gefnogi dileu neu ddiwygio ardaloedd cynefin erbyn **31 Rhagfyr 2026**.  Mae hwn wedi'i ddiwygio o'r 15 Mai 2026 a restrir ar y sgrin.  Os na dderbynnir y dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, gwrthodir dileu neu ddiwygio'r cynefin.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

[redacted]

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 24 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

**Dechrau Cais** dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Cais Sengl 2026.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Rhaid sicrhau bod eich **Ffurflen Cais Sengl 2026** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol o ran y rheol 550 awr a/neu dileu neu newid arwynebedd cynefin ar haen gyfyngedig os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Rhaidi chi lenwi'ch Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS i gadarnhau'ch bod wedi cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol erbyn 15 Ionawr 2027. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud hyd nes y byddwn wedi derbyn cadarnhad fod yr holl Weithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer Ffermio Organig - Cymorth a/neu Cynllun Troi'n Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mehefin 2026. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 9 Mehefin 2026.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Cais Sengl 2026** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Enw Masnachu**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Cyfeiriad e-bost**

**Nifer y Partneriaid**

[redacted]

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**

[redacted]

Dechrau | Canslo

Ar ôl clicio'r botwm Dechrau, welwch chi sgrin 'Rhoi gwybodaeth ar eich SAF' fel a y dangosir yn y sgrin lun isod.



## Rhoi gwybodaeth ar eich SAF

Byddwn wedi rhoi'r wybodaeth a ganlyn ar eich rhan ar eich SAF gan **ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch:**

- Manylion y Busnes
- SFS - yr Haen Opsiynol - Bydd ticiau yn cael eu rhoi ymlaen llaw ar gyfer hawliadau'r Cynllun Troi'n Organig (dyfarniad grant sy'n dechrau o 1 Ionawr 2026) yn yr Adran Hawliadau a parseli unigol yn yr Adran Data Caeau
- Cynlluniau Coetir - Os oes gennych gontract a/neu lythyr dyfarnu grant ar gyfer Cynnal Creu Coetir (WCM), Premiwm Creu Coetir (WCP), Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP, Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) a Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) bydd ticiau yn ymddangos ar gyfer hawliadau yn yr adran Hawliadau a parseli unigol yn yr Adran Data Caeau
- Hawliau Tir Comin - Byddwn yn llenwi ymlaen llaw unrhyw hawliau tir comin sydd gennych chi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn llenwi ymlaen llaw yr Hawl SFS yn erbyn yr Hawliau Tir Comin sydd gennych chi. **Os ydych yn dymuno hawlio SFS - yr Haen Gyffredinol ar unrhyw hawliau tir comin sydd gennych chi, bydd angen i chi dicio'r blwch hawlio SFS - yr Haen Gyffredinol yn erbyn yr Hawliau Tir Comin perthnasol**
- **Data Caeau - Bydd angen i chi roi tic ar yr hawliad SFS - yr Haen Gyffredinol ar y dudalen data cae lle rydych yn ystyried bod y parsel tir yn gymwys ar gyfer SFS. Rhaid i chi hawlio ar bob parsel cymwys**
- Data Caeau - Os ydyn ni'n gwybod bod gennych reolaeth lwyr ar barsel am gyfnod o 10 mis mewn blwyddyn galendr sy'n cynnwys 15 Mai, byddwn wedi llenwi'r darn 'Ar gael am 10 mis' ar eich rhan

Ni fydd yr ymateb Llinell Sylfaen Rheoleiddio wedi'i lenwi ymlaen llaw. Bydd angen ichi roi ymatebion i'r cwestiynau.

Gallwch dal newid gwybodaeth gaiff ei llenwi ar eich rhan.

**Eich cyfrifoldeb chi yw cadarnhau bod y cais yn gywir, cyflawn ac yn adlewyrchu newidiadau 2026.**

Parhau

**Darllenwch hwn yn ofalus** ac yn cliciwch'Parhau'. **Cofiwch, chi sy'n gyfrifol am gadarnhau bod eich cais cyfan yn gywir a chyflawn a'i fod yn adlewyrchu'r newidiadau ar gyfer 2026.**

Gallwch ddewis gadael y SAF unrhyw bryd a dychwelyd ati eto (o fewn y dyddiad cau). Os ydych eisoes wedi dechrau llenwi'ch SAF ac yna'n mynd allan ohoni cyn ei chyflwyno, bydd y sgriniau nawr yn dangos 'Parhau â'r Cais' yn lle 'Dechrau Cais' fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

**Sylwer**: Rhaid cyflwyno dogfennaeth ategol i gefnogi dileu neu ddiwygio ardaloedd cynefin erbyn **31 Rhagfyr 2026**. Mae hwn wedi'i ddiwygio o'r 15 Mai 2026 a restrir ar y sgrin. Os na dderbynnir y dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, gwrthodir dileu neu ddiwygio'r cynefin.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

[redacted] English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 24 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Cais Sengl 2026.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Ffurflen Cais Sengl 2026.**

Cewch ddewis dileu'ch **Ffurflen Cais Sengl 2026** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Ffurflen Cais Sengl 2026** a llenwir y **Ffurflen Cais Sengl 2026** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Rhaid sicrhau bod eich **Ffurflen Cais Sengl 2026** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol o ran y rheol 550 awr a/neu dileu neu newid arwynebedd cynefin ar haen gyfyngedig os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Rhaidi chi lenwi'ch Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS i gadarnhau'ch bod wedi cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol erbyn 15 Ionawr 2027. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud hyd nes y byddwn wedi derbyn cadarnhad fod yr holl Weithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer Ffermio Organig - Cymorth a/neu Cynllun Troi'n Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mehefin 2026. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 9 Mehefin 2026.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Cais Sengl 2026** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Enw Masnachu**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Cyfeiriad e-bost**

**Nifer y Partneriaid**

[redacted]

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**

[redacted]

Parhau i weithio ar **Ffurflen Cais Sengl 2026** a gafodd ei ddiweddaru ar [redacted]

Parhau | Yn ôl

Gallwch hefyd ddewis 'Dechrau Eto' os ydych am ailddechrau'ch cais. **O wneud hynny, byddwch yn dileu'r wybodaeth rydych eisoes wedi'i rhoi ar eich SAF,** felly peidiwch â dewis yr opsiwn hwn oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol, a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

Yn ôl i'r cynnwys

**Cyflwyniad**

Mae’r adran hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y SAF fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gofalwch eich bod yn eu darllen yn fanwl cyn dechrau.

**Sylwer**: Rhaid cyflwyno dogfennaeth ategol i gefnogi dileu neu ddiwygio ardaloedd cynefin erbyn **31 Rhagfyr 2026**.  Mae hwn wedi'i ddiwygio o'r 15 Mai 2026 a restrir ar y sgrin.  Os na dderbynnir y dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, gwrthodir dileu neu ddiwygio'r cynefin.

Mae yna ddolenni hefyd i Lyfryn Rheolau’r SAF a’r canllaw Sut i Lenwi’r SAF ar wefan Llywodraeth Cymru (byddwch yn agor tab newydd ar eich Porwr).  Gallwch weld y canllaw Sut i Lenwi unrhyw bryd trwy glicio’r ‘Canllaw Helpu’.

Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 | Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid defnyddio SAF 2026 i hawlio taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol. Rhaid i chi ddefnyddio SAF 2026 i hawlio am Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Opsiynol - Cynllun Troi’n Organig (OCS) ac/neu Ffermio Organig - Cymorth (OFS). Rhaid i chi hefyd ddefnyddio'r SAF 2026 os hoffech hawlio taliad o dan Gynlluniau Coetir - Cynnal a Chadw Creu Coetiroedd (WCM) a'r Premiwm Creu Coetiroedd (WCP) ar ôl plannu newydd wedi'i gwblhau yn y Grant Creu Coetiroedd (WCG) neu Grantiau Bach - Cynllun Creu Coetiroedd (SGWC), Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP a GCP) a/neu Taliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dylech ddarllen Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol yn ogystal â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol: canllawiau 2026 a bydd angen i chi hefyd gyfeirio at Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026 ar gyfer cynlluniau eraill cyn dechrau eich cais.

- **Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol** am gywirdeb unrhyw wybodaeth a roddir i gefnogi cais am SFS - yr Haen Gyffredinol, SFS - yr Haen Opsiynol neu Gynlluniau Coetiroedd.
- Eich **cyfrifoldeb chi** yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd wedi'i rhoi a'i chyflwyno ar eich SAF 2026 yn wir, yn gywir ac yn gyflawn a bod yr holl gwestiynau wedi'u hateb yn llawn.
- Byddwn wedi llenwi cymaint o'ch SAF â phosibl ar eich rhan â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Ond mae'n bwysig eich bod yn rhoi unrhyw **newidiadau ar gyfer 2026** ar eich SAF 2026 ac yn gwneud yn siŵr **eich bod yn hawlio ar yr holl gynlluniau a thiroedd** yr ydych am eu hawlio.
- **Pwysig** - Os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd angen ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio’ch cyfrif RPW Ar-lein cyn ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir yn yr Adran Data Caeau. Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i’ch parsel **cyn** llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid ddiweddaru’r wybodaeth unwaith eto.
- **Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn yr adran Data Caeau yn gywir a'i bod yn cyfateb i'r sefyllfa ar eich fferm.** Pwysig: os ydych wedi apelio yn erbyn honiad eich bod wedi gorddatgan ac nad oes penderfyniad pendant wedi'i wneud eto, rhaid ichi **ystyried yn ofalus yr arwynebedd rydych am ei ddatgan**. Ni chewch hawlio ar fwy na'r arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ond os gwelwn eich bod yn datgan arwynebedd mwy na'n cofnod, **yna byddwn yn lleihau'ch hawliad ac efallai y cewch eich cosbi.**
- **Rhaid i chi hefyd gwblhau'r Adolygiad Gwaelodlin Cynefinoedd i gadarnhau'r cynefin a y canopi coed ar eich holl barseli tir. Lle y bo angen i chi fodloni’r gofyniad o 10% o gynefin, bydd angen i chi ddatgan ar wahân y perthi cymwys.**
- Eich **cyfrifoldeb chi** yw gofalu bod pob cae yn gymwys i hawlio eich taliadau tir blynyddol. **Rydym yn eich cynghori i ddarllen eich cais i sicrhau'ch bod wedi ticio'r holl gaeau rydych am hawlio arnynt**.
- Os gwelir bod y manylion y byddwch wedi'u rhoi ar eich SAF 2026 yn anghywir, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich cosbi.
- Rhaid ichi nodi ar eich SAF yr holl dir yng **Nghymru** yr ydych yn berchen arno a’i rentu gyda rheolaeth drosto ac sydd ar gael i chi ar **15 Mai 2026**. Peidiwch â chynnwys tir rydych yn ei rentu allan, ac nad oes gennych reolaeth drosto. Os ydych yn hawlio SFS - yr Haen Gyffredinol, rhaid i’r tir fod ar gael i chi am gyfnod o 10 mis, nid oes angen iddo fod yn barhaus. Rhaid i’r cyfnod o 10 mis gynnwys **15 Mai 2026.**
- Ar ôl i chi gyflwyno'ch SAF a gwneud hawliad am SFS - yr Haen Gyffredinol, a bod y dyddiad cau cyflwyno SAF wedi mynd heibio (15 Ionawr 2027, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawliad hwyr) ni fyddwch bellach yn gallu hawlio BPS. Os ydych chi'n dal Hawliau BPS, ni fyddant ar gael i chi yn 2026 ac yn y blynyddoedd i ddod.
- Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol o ran y rheol 550 awr a/neu dileu neu newid arwynebedd cynefin ar haen gyfyngedig os yw’n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun.
- **Rhaid** i chi sicrhau eich bod wedi diweddaru'r Dangosfwrdd Cyffredinol SFS i gadarnhau eich bod wedi bodloni yr holl Weithredu Cyffredinol SFS perthnasol **erbyn 15 Ionawr 2027**. Gall methu â chadarnhau eich bod wedi bodloni'r Gweithredu Cyffredinol SFS perthnasol arwain at gosbau yn cael eu rhoi i'ch taliad.
- Mae’n rhaid i chi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y Cynllun Troi’n Organig ac/neu ar gyfer Ffermio Organig - Cymorth erbyn **31 Rhagfyr 2026** fel y gallwch fodloni gofynion y cynllun.
- Rhaid sicrhau bod eich SAF 2026 yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2026** rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.
- **Byddwn yn gwrthod ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026.**
- Bydd pob taliad yn cael ei dalu'n syth i'ch Cyfrif Banc (mewn Sterling). Gofalwch fod manylion eich cyfrif banc sydd gan Lywodraeth Cymru ar eich cyfer yn gywir.

Mae’n bosib na fyddwch yn gallu gweld y ddewislen ar y chwith os mai sgrin fach sydd ar eich dyfais.  Chwyddwch y llun ar eich dyfais ond gallwch lenwi’r SAF heb orfod gweld y ddewislen ar y chwith.




Mae'r ddewislen ar y chwith yn dangos statws pob un o adrannau'ch SAF:

- mae croes goch yn dangos eich bod naill ai heb edrych ar yr adran, neu fod gwallau ynddi. Chewch chi ddim cyflwyno'r SAF nes eich bod wedi llenwi'r adrannau i gyd a bod pob gwall wedi'i gywiro

- mae tic gwyrdd yn dangos bod adran wedi'i chwblhau ac nad oes gwallau na negeseuon gwybodaeth ynddi hyd y gwelwn. (Dim ond rhannau o'r SAF sy'n cael eu dilysu ar-lein a chaiff ei dilysu'n llawn ar ôl ichi ei chyflwyno. Y cyfan y gallwn ei ddweud felly yw ei bod yn ymddangos yn gywir, ar sail y manylion rydych wedi'u darparu.)

- mae 'i' glas yn dangos bod negeseuon gwybodaeth yn yr adran. Ni fydd hynny'n eich rhwystro rhag cyflwyno'ch SAF.

Gallwch newid iaith y sgrin hefyd rhwng Cymraeg a Saesneg trwy bwyso ar y botwm ar y ddewislen ar y chwith.

Ar ôl ichi ddarllen a deall llyfryn rheolau'r SAF, cliciwch 'Nesaf' ar gorneli dde uchaf neu isa'r sgrin i fynd i'r adran 'Hawlio a Hawliau'.

Rhaid ichi gwblhau pob un o adrannau'r SAF cyn ei chyflwyno. Trwy glicio 'Nesaf', byddwch yn safio'r adran rydych newydd ei llenwi. Cliciwch y botwm 'Gadael' unrhyw bryd os ydych am fwrw ymlaen â'ch SAF rywdro eto.

**Cofiwch – eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod eich SAF yn cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau, a'i bod yn eich blwch Negeseuon RPW Ar-lein fel cadarnhad ein bod wedi cael copi.**

Mae'r system yn archwilio data sylfaenol ar eich ffurflen a bydd gwallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos naill ai wedi ichi safio adran neu wedi ichi glicio 'nesaf' i fynd i'r adran nesaf. Ar ôl ichi lenwi adran, gallwch fynd yn ôl ati i gywiro camgymeriadau neu i'w newid. Gallwch hefyd ddewis 'Printio' y SAF unrhyw bryd.

**Enghraifft o Neges Gwall ar y sgrin lun isod:**




## Enghraifft o Neges Gwybodaeth ar y sgrin lun isod:




## Botymau ym mhob adran

Pan fyddwch chi yn unrhyw rai o'r adrannau, bydd botymau safonol ichi eu defnyddio.

Ar dop y dudalen fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Help?– bydd y ddolen hon yn mynd â chi at gopi PDF o *'Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir ac Organig'.*

Help ar gyfer y Dudalen hon – yn dangos help penodol ichi ar gyfer yr adran rydych yn gweithio ynddi. Welwch chi mohono ym mhob adran.

Yn ôl a Nesaf – i chi allu mynd o un adran i'r llall.

Safio – cliciwch ar hwn i safio (arbed) unrhyw newidiadau rydych eisoes wedi'u gwneud (cliciwch 'Nesaf' a byddwch yn safio'r adran rydych newydd ei llenwi yn awtomatig).

Ar waelod y dudalen fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Gadael – cliciwch ar hwn i adael y SAF ac i allu dod nôl ati unrhyw bryd (o fewn y terfynau amser).

Help ar gyfer y Dudalen hon – yn dangos help penodol ichi ar gyfer yr adran rydych yn gweithio ynddi. Welwch chi mohono ym mhob adran.

Yn ôl a Nesaf – i chi allu mynd o un adran i'r llall.

Safio – cliciwch ar hwn i safio (arbed) unrhyw newidiadau rydych eisoes wedi'u gwneud (cliciwch 'Nesaf' a byddwch yn safio'r adran rydych newydd ei llenwi yn awtomatig).

Printio – Ar waelod y dudalen yn y cornel chwith, cliciwch ar hwn i brintio copi o'ch SAF unrhyw bryd.  Bydd y neges a ddangosir ar y sgrin lun isod yn ymddangos:







[Yn ôl i'r cynnwys](#)

## Hawliau

### Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol

Bydd tic wedi ei rhoi ar gyfer hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol ar eich rhan ac ni ellir ei newid.




Bydd rhaid nodi y tir rydych chi am ei ddefnyddio i hawlio’r taliadau hyn yn adrannau’r ‘Tir Comin’ a ‘Data Caeau’ gan gynnwys cwblhau'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer yr holl barseli a hawliwyd ar gyfer SFS – yr Haen Gyffredinol.

Os nad ydych am wneud cais am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, gadewch y ffurflen a dewisiwch ‘Dechrau Eto’ i ddewis pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano.

[Yn ôl i’r cynnwys]

**SFS – yr Haen Opsiynol**

Byddwn yn rhoi tic yn y **Cynllun Troi’n Organig (OCS)** a thiciau ar lefel parsel ar eich rhan os bydd ein cofnodion yn dangos bod gennych ddyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026. Rhaid i chi gadarnhau bod hyn yn iawn a’i newid os oes angen. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo’ch talu.

**Sylwer:** Ni fydd ticiau i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Ffermio Organig - Cymorth. Os ydych am hawlio taliad, **fydd rhaid i chi rhoi tic gyferbyn a Ffermio Organig – Cymorth yn Adran Hawliau.**

**Sylwer:** Yn 2026, fydd gofyn ichi ddangos y caeau rydych am eu defnyddio i gefnogi taliad **Ffermio Organig - Cymorth. Bydd rhaid i chi ychwanegu tic yn y blwch i hawlio Ffermio Organig – Cymorth yn yr Adran Data Caeau ar gyfer bob parsel cymwys yr hoffech hawlio taliad arnynt.**


SFS - yr Haen Opsiynol

Bydd angen ichi roi tic wrth **Ffermio Organig - Cymorth (OFS)** os ydych am hawlio taliad. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo’ch talu.

Byddwn yn rhoi tic yn y **Cynllun Troi’n Organig (OCS)** ar eich rhan os bydd ein cofnodion yn dangos bod gennych ddyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026. Rhaid i chi gadarnhau bod hyn yn iawn a’i newid os oes angen. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo’ch talu.

☐ Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026

☐ Ffermio Organig - Cymorth (OFS)

Os nad oes gennych ddyfarniad grant bellach ar gyfer y **Cynllun Troi’n Organig (OCS)** rydym wedi’u ticio, rhaid dileu’r tic.

Os oes gennych ddyfarniad ar gyfer y **Cynllun Troi’n Organig (OCS)** nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a’ch bod am hawlio’r cynllun hynny, **rhaid** rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol. Wrth wneud hynny, fe welwch neges gwybodaeth fel yr un a ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio’r blwch hawlio trwy ddamwain.


☑ Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026

- Rydych wedi dangos eich bod am hawlio Troi'n Organig. Gofalwch fod gennych ddyfarniad grant dilys.

☐ Ffermio Organig - Cymorth (OFS)

Yn ôl i’r cynnwys

## Y Cynlluniau Coetir

Rhaid ichi roi tic i ddangos taliadau pa Gynlluniau Coetir yr rydych am eu hawlio.



Cynlluniau Coetir

Ticiwch bob cynllun rydych am hawlio taliad wrtho. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo'ch talu. Rydym wedi ticio'r blychau hawlio ar eich rhan, ar sail yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. Ychwanegwch neu dynnwch y ticiau hyn yn ôl y gofyn.

☐ Cynnal Creu Coetir (WCM)

☐ Premiwm Creu Coetir (WCP)

☐ Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015

☐ Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015

☐ Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015

Byddwn wedi rhoi tic ar eich rhan wrth flychau hawlio’r Cynlluniau Coetir lle bo’n cofnodion yn dangos bod gennych gontract a/neu ddyfarniad grant.

Os nad oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant bellach ar gyfer unrhyw gynlluniau rydym wedi’u ticio, rhaid dileu’r tic.

Os oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant ar gyfer cynlluniau nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a’ch bod am hawlio’r cynlluniau hynny, rhaid rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol.  Wrth wneud hynny, fe welwch neges gwybodaeth fel yr un a ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio’r blwch hawlio trwy ddamwain.



☐ Cynnal Creu Coetir (WCM)

☑ Premiwm Creu Coetir (WCP)

- Rydych wedi dangos eich bod am hawlio WCP. Gofalwch fod gennych gontract a/neu ddyfarniad grant WCG a neu/ SGWC dilys.

☑ Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015

- Rydych wedi dangos eich bod am hawlio GWCP. Gofalwch fod gennych gontract dilys.

☐ Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015

☐ Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015

[Yn ôl i’r cynnwys]

**Ffermio Organig - Cymorth**

Os nad ydych wedi hawlio Ffermio Organig – Cymorth ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiynau yn yr adran hon ac fe welwch yn y sgrin lun canlynol. (Os mai ’ch bwriad oedd hawlio Ffermio Organig - Cymorth, ewch yn ôl i’r adran ‘Hawlio’ i gywiro hyn.)




Fel arall, fe welwch y sgrin lun canlynol a rhaid ateb yr holl gwestiynau.




**Pwy sy'n gymwys**

Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.

Os ydych yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn 'A ydych chi'n gynhyrchydd cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant?', bydd angen ichi gadarnhau arwynebedd (ha) y cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant a dyfir, fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogennaeth ategol sy'n dangos gwerthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol, er enghraifft, derbyniadau gwerth ar gyfer llysiau. Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol. Os nad oes gennych dystiolaeth eich bod yn gwerthu'n fasnachol, er enghraifft, gan nad yw'r cnwd yn barod i'w gynaeafu, e.e. gwinllan neu berllan sydd newydd ei sefydlu, efallai y gallwn eich talu os gallwch gyflwyno tystiolaeth, e.e. anfonebau ar gyfer y planhigion a / neu luniau geo-dag o'r cnwd yn y ddaear, i ddangos y bydd eich menter yn gweithredu ar raddfa fasnachol.

A ydych chi'n gynhyrchydd cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant? * ◉ Ydw ○ Nac ydw

Cadarnhewch arwynebedd (ha) cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant a dyfir. *

Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi'n gynhyrchydd llaeth?' bydd angen ichi nodi nifer yr anifeiliaid godro ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol, fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogfennaeth ategol, er enghraifft, copi o gontract llaeth ar gyfer blwyddyn galendr 2026. Os ydych yn prosesu llaeth ar y daliad, rhaid cadarnhau hynny ac esbonio'n ysgrifenedig sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch llaeth wedi'i brosesu.

Ydych chi'n gynhyrchydd llaeth? * ◉ Ydw ○ Nac ydw

**Nodwch:** Mae cynhyrchwyr llaeth yn cynnwys y bobl hynny sy'n gwerthu llaeth i brynwr neu brosesydd llaeth a chynhyrchwyr sy'n prosesu'r llaeth eu hunain ar gyfer gwerthu'n uniongyrchol.

**Nodwch nifer y anifeiliaid godro sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**

Faint o wartheg godro sydd ar y daliad? (24 mis neu hŷn)

Faint o wartheg godro cadw sydd ar eich daliad? (6 - 24 mis)

Faint o eifr godro sydd ar y daliad? (6 mis neu hŷn)

Faint o eifr godro cadw sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

Faint o ddefaid godro sydd ar eich daliad? (6 mis neu hŷn)

Faint o ddefaid godro cadw sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

Os atebwch 'Oes' i'r cwestiwn 'Anifeiliaid godro eraill?', bydd angen ichi roi manylion yr anifeiliaid godro eraill yn y blwch testun a nodi nifer yr anifeiliaid godro eraill ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol, fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogfennaeth ategol, er enghraifft, copi o gontract llaeth ar gyfer blwyddyn galendr 2026. Os ydych yn prosesu llaeth ar y daliad, rhaid cadarnhau hynny ac esbonio'n ysgrifenedig sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch llaeth wedi'i brosesu.

Anifeiliaid Godro Eraill * ◉ Oes ○ Nac oes

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) *

0 / 255

**Nodwch nifer o anifeiliaid godro eraill sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**

Faint o anifeiliaid godro eraill sydd ar eich daliad? (24 mis neu fwy)

Faint o anifeiliaid godro eraill sydd ar eich daliad? (6 - 24 mis)

Faint o anifeiliaid godro cadw eraill sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

**Rhaid i chi hefyd gyflwyno'r dogfennau ategol angenrheidiol erbyn 31 Rhagfyr 2026.**

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Cynllun Troi’n Organig – Cydymffurfio

Os nad oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi’n Organig ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiwn yn yr adran hon fel y gwelwch yn y sgrin lun canlynol.


Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Nid oes unrhyw gwestiynau i chi eu hateb yn yr adran hon oherwydd nad oes gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig.

Fel arall, fe welwch y sgrin lun canlynol a rhaid ateb y cwestiwn.

Os oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi’n Organig, mae’n rhaid i chi gadarnhau eich bod yn bodloni eich gofynion cytundebol ar y SAF.


Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich Contract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig? * Ydyn Nac ydyn

**Sylwer**: Rhaid i chi gyflwyno copi o dystysgrif ddiweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB) a’r Rhestr Tir er mwyn bodloni gofynion y cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Os nad ydych yn bodloni gofynion cytundebol Cynllun Troi’n Organig, bydd rhaid i chi ateb ‘na’ i gwestiwn ‘A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich contract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi'n Organig?’ ac bydd angen i chi rhoi rhagor o fanylion yn y blwch testun a ddangosir yn y sgrin lun isod.


Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich Contract Cynllun Troi'n Organig? * Ydyn Nac ydyn

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau). *

0 / 255

**Sylwer**: Rhaid i chi gyflwyno copi o dystysgrif ddiweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB) a'r Rhestr Tir er mwyn bodloni eich gofynion cytundebol erbyn 31 Rhagfyr 2025.

**Rhaid i chi hefyd gyflwyno'r dogfennau ategol angenrheidiol erbyn 31 Rhagfyr 2026.**

[Yn ôl i’r cynnwys]

## Manylion y Busnes

## Trefniadaeth y Busnes




Os yw nifer y partneriaid yn wahanol i'r nifer sydd wedi'i nodi ar eich rhan, rhowch y nifer cywir.  Dylech gywiro gan ddefnyddio'r opsiwn Rheoli Unigolion o dan y tab Manylion CRN ar eich cyfrif RPW Ar-lein ar ôl cyflwyno'ch SAF a rhoi'r manylion trwy'ch tab Negeseuon os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Rhaid ateb y ddau gwestiwn sy'n weddill fel y dangosir yn y sgrin lun uchod yn ôl y gofyn. Os mai 'Ydy / Oes' yw'ch ateb i'r naill neu'r llall, atebwch y cwestiynau ychwanegol a rhoi'r manylion yn y blychau testun fydd yn ymddangos, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Byddwn wedi ateb y cwestiwn 'Dyddiad ffurfio'ch busnes' ar eich rhan ar sail yr wybodaeth sydd gennym amdanoch.  Os byddwn wedi rhoi 'Anhysbys' neu os yw'r dyddiad yn anghywir neu'n wag, rhaid ei gywiro naill ai trwy roi'r dyddiad cywir neu trwy dicio'r blwch 'Cyn 30 Mehefin 1992' os yw'n gymwys.

Rhaid rhoi manylion unrhyw newidiadau mawr i'ch busnes (e.e. partneriaid newydd) trwy lythyr wedi'i arwyddo gan yr holl bartneriaid.

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Cynlluniau Gwarant Fferm

Os nad ydych yn aelod o unrhyw Gynllun Gwarant Fferm, hwn fydd yr unig gwestiwn yn yr adran hon y bydd gofyn ichi ei ateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os ydych yn aelod o Gynllun Gwarant Fferm, bydd angen ichi roi rhagor o fanylion fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Os nad yw enw'ch cynllun ar y rhestr opsiynau, dewiswch 'Arall' a nodi enw'r Cynllun Gwarant Fferm yn y golofn ganol.

Nid oes terfyn ar nifer y Cynlluniau Gwarant Fferm y gallwch eu hychwanegu.




Os ydych yn aelod o Gynllun Gwarant Fferm, bydd angen i chi gadarnhau os ydych chi'n cwblhau eich Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) gyda'ch darparwr Gwarant Fferm trwy ateb naill ai 'Ydw' neu 'Nac ydw' i'r cwestiwn a ddangosir yn y sgrin lun isod.

**Dylech wirio gyda'ch Cynllun Gwarant Fferm y byddant yn cynnig y gwasanaeth hwn.**




Os ydych yn ateb 'Ydw' i gwestiwn 'Ydych chi'n cwblhau eich Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) gyda'ch darparwr Gwarant Fferm?'. Bydd angen i chi gadarnhau a ydych chi'n cydsynio i'ch Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN), eich Enw a'ch Cyfeiriad gael eu rhannu â'ch darparwr Sicrwydd Fferm i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r Cylch Gwella

Iechyd Anifeiliaid (AHIC) drwy ateb ‘Ydw’ neu ‘Nac Ydw’ i’r cwestiwn a ddangosir yn y sgrin lun isod.


Ydych chi’n cwblhau eich Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) gyda’ch darparwr Gwarant Fferm? * ◉ Ydw ○ Nac ydw

A ydych chi'n cydsynio i'ch Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN), eich Enw a’ch Cyfeiriad gael eu rhannu â'ch darparwr Sicrwydd Fferm i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)? * ○ Ydw ○ Nac ydw

[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Lefelau Stocio

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at sawl diben, gan gynnwys i bennu a yw UA12: Iechyd a lles anifeiliaid yn berthnasol i chi ac i hepu i bennu a allwch fodloni’r gofynion ar gyfer defnyddio hawliau tir comin.

Os nad oes unrhyw anifeiliaid, sydd naill ai’n eiddo ichi neu a gedwir gennych chi fel y ceidwad cofrestredig, wedi bod ar eich tir ar unrhyw adeg yn 2026, neu os na fydd unrhyw anifeiliaid arno ychwaith yn 2026, dyma’r unig gwestiwn mae angen ichi ei ateb yn yr adran hon fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os yn 2026 mae gennych neu a fydd gennych anifeiliaid  un ai’n eiddo i chi neu a gedwir gennych chi fel y ceidwad cofrestredig , rhaid ichi nodi nifer yr anifeiliaid ar eich tir ar ddiwrnod llenwi’r SAF ym mhob categori trwy ddewis yr ystod fwyaf priodol, gan ddilyn yr enghraifft a ddangosir yn y sgrin lun isod. Rhaid i chd hefyd nodi yn erbyn y categorïau a fu gennych neu a fydd gennych unrhyw rai o'r anifeiliaid hyn ar y daliad yn ystod y flwyddyn drwy ddewis yr opsiwn ‘Yn flaenorol ar y ddaliad neu bydd ar y daliad yn ystod y flwyddyn. (Nid oes angen ichi eu llenwi os nad oes gennych anifeiliaid sy’n perthyn i’r categori hwnnw.)

Os mai anifeiliaid sydd ar dac gan gwsmer arall sydd wedi cadw perchnogaeth ohonynt yw'r unig anifeiliaid sydd ar y tir yn ystod y flwyddyn, dylech ateb 'Na' i'r cwestiwn hwn.

Os oes gennych eich anifeiliaid eich hun ond eu bod i ffwrdd ar dac (i ffwrdd o'r daliad) ar adeg cwblhau eich SAF ond mai chi yw'r ceidwad hynny o hyd, dylech eu datgan ar eich SAF.

Rhaid i chi dicio os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu cadw at ddibenion masnachol. Dylech chi dim ond ticio hwn os nad yw'r **holl** anifeiliaid rydych chi'n eu cadw yn cael eu cadw at ddibenion masnachol.  Diben masnachol yw pan fo da byw yn cael eu magu neu eu ffermio i gynhyrchu bwydydd a nwyddau.  Anfasnachol yw pan fo mae anifeiliaid yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes neu sŵau anwesu.

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at sawl diben, gan gynnwys i bennu a yw UA12: Iechyd a lles anifeiliaid yn berthnasol i chi ac I hepu i bennu a allwch fodloni'r gofynion ar gyfer defnyddio hawliau tir comin.

Yn 2026 a oedd neu a fydd anifeiliaid gennych un ai'n eiddo i chi neu a gedwir gennych chi fel y ceidwad cofrestredig? * ◉ Oedd / Bydd ○ Na

**Nodwch faint o anifeiliaid sydd gennych ar eich tir heddiw ymmhob categori perthnasol neu os nad oes gennych unrhyw anifeiliaid ar eich tir heddiw, nodwch yn erbyn y categorïau a fu gennych neu a fydd gennych unrhyw rai o'r anifeiliaid hyn ar y daliad yn ystod y flwyddyn.**

**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy

**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy

Gwartheg stôr/pesgi **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

Lloi **6 mis** neu iau

Gwartheg stôr/pesgi **24 mis** oed neu fwy

Defaid dros **6 mis** oed

Ŵyn **6 mis** neu iau

Ceirw dros **6 mis** oed

Ceirw **6 mis** oed neu iau

Moch dan do/allan (heb gynnwys perchyll heb eu diddyfnu)

Geifr dros **6 mis** oed

Mynnod (Geifr) **6 mis** oed neu iau

Ceffylau dros **6 mis** oed

Ebolion **6 mis** oed neu iau

Asynnod

Merlod

Camelidau

Dofednod dan do/allan (amcangyfrif)

Gwyddau

Eraill * ○ Oes ○ Nac oes

☐ Rhaid i chi dicio os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu cadw at ddibenion masnachol.

Rhaid dweud a oes gennych anifeiliaid ‘Eraill’ ac os ‘Oes’, rhoi eu manylion fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Yn ôl i’r cynnwys

## Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Set o ofynion cyfreithiol yw Sylfaen Reoleiddio'r SFS, sy'n sail i Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddomestig y mae'n rhaid i bob ffermwr yng Nghymru gadw ati.

Rhaid ichi ateb pob cwestiwn yn yr adran hon fel y dangosir yn y sgrin lun isod i ddangos y gweithgarwch ar eich fferm o 1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2026.


Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn newid ar ôl cyflwyno'r cais.

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

**Dywedwch 'Ydw' neu 'Nac ydw' am y gosodiadau isod i ddangos y gweithgarwch ar eich fferm rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2026. Am ragor o wybodaeth, darllenwch yr wybodaeth am Sylfaen Reoleiddio'r SFS.**

| | | |
|---|---|---|
| Rwyf wedi neu'n bwriadu defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion fel plaladdwyr, chwynladdwyr, pryfladdwyr, ffwngladdwyr (gan gynnwys gorchudd hadau), molysgladdwyr neu reoleiddwyr twf planhigion ar fy nhir. * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n llosgi grug a / neu borfa * | Ydw | Nac ydw |
| Mae gen i sofl cnwd wedi'i gynaeafu neu dir sydd wedi'i hau â chnwd gorchudd dros dro, dros y gaeaf * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n cadw gwartheg neu foch neu geffylau allan dros y gaeaf ar fy nhir * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n dipio a / neu'n rhoi cawod i ddefaid * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n gwerthu cynnyrch wedi'i bacio yn syth o'm fferm * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd anifeiliaid o'm fferm (heblaw gwair a silwair) * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n codi dŵr er mwyn dyfrhau * | Ydw | Nac ydw |
| Mae gennyf storfa slyri ar fy fferm yr wyf yn ei defnyddio * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n gwneud ac yn storio silwair pwll / claddfa silwair ar fy fferm * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n prynu slyri, tail buarth, tail ieir neu unrhyw wrtaith organig arall gan gynhyrchwyr eraill * | Ydw | Nac ydw |

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd eich atebion yn newid ar ôl ichi gyflwyno'ch SAF.

Rhaid i bob cwsmer sy'n cyflwyno SAF gadw at y rheolau Sylfaen Reoleiddio'r SFS.  Mae'r safonau Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn effeithio ar bob tir amaethyddol mewn busnes amaethyddol.  Rhaid ichi felly gadw 'ch tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da a chadw at nifer o Ofynion Rheoli Statudol.

**Noder** – Mae'r cwestwin 'Mae gennyf storfa slyri ar fy fferm yr wyf yn ei defnyddio' yn cyfeirio at storfeydd slyri sy'n cael eu defnyddio.  Nid yw yn cynnwys ardal storio tail o'r buarth.

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Hawliau Tir Comin

Os nad oes gennych hawliau tir comin, ni fydd gennych unrhyw beth i'w lenwi yn yr adran hon a dylech glicio 'Nesaf' i fynd i'r adran nesaf.

Os ydych wedi agor a darllen yr Adran Tir Comin a does dim manylion tir comin, bydd tic gwyrdd ar y ddewislen ar y chwith. Ond os byddwch chi'n gadael y cais ac yna'n ei ailagor, bydd croes goch wrth yr Adran Tir Comin ar y ddewislen ar y chwith. Bydd angen i chi agor a darllen yr Adran cyn cyflwyno'ch cais.

**Noder:** Cynllun Cynefin Cymru – Nid yw Tir Comin yn cael ei hawlio ar SAF 2026. Mae ffurflen hawlio ar wahân ar gael drwy RPW Ar-lein i Gymdeithasau Pori i hawlio am Gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin.

Os gwnaethoch chi ddatgan hawliau pori tir comin ar eich SAF 2025, byddwn wedi llenwi'r rhan hon o'r ffurflen ar eich rhan fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth hon yn gywir. Os ydy Statws eich hawliau sydd wedi'u nodi wedi newid, rhaid ei newid. Os oes unrhyw agwedd arall ar eich hawliau wedi newid neu os nad oes gennych yr awdurdod mwyach i ddefnyddio'r hawliau hyn, rhaid dileu'r rhes rydym wedi'i llenwi ar eich rhan ac os oes angen, ychwanegu rhes newydd gyda'r manylion newydd trwy glicio'r botwm '+Ychwanegu Hawliau Pori'. (Os ydych yn dileu rhes trwy gamgymeriad, cliciwch 'Adfer' i'w gael yn ôl.)




Os oes gennych hawliau pori tir comin newydd, rhaid eu hychwanegu at y rhes wag a welwch, neu os nad oes rhes wag, cliciwch ar '+Ychwanegu Hawliau Pori'.

Os nad ydych yn siŵr ynghylch y ffeithiau sydd eu hangen, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y 'Cofrestrau Tir Comin'.

Mae'r gwymplen 'Rhif Tir Comin' yn amrywio gan ddibynnu ar ba 'Sir Gofrestru' rydych wedi'i dewis. Mae'n dangos pob Rhif Tir Comin y gwyddom amdano yn y sir honno. Os oes gennych Rif Tir Comin nad yw ar y rhestr a'ch bod yn bendant bod Enw'r Sir Gofrestru a Rhif y Tir Comin yn gywir, ychwanegwch y Rhif Tir Comin. Bydd Neges Gwybodaeth 'Does gennym ddim cofnod o'r rhif Tir Comin ar gyfer y Sir hon. Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth ar y llinell hon yn gywir cyn symud ymlaen.' yn ymddangos fel y dangosir yn y sgrin lun isod i'ch atgoffa i wneud yn siŵr eich bod wedi teipio'r Rhif Tir Comin yn gywir.




**Pwysig: Rhaid rhoi tic** wrth y cofnod tir comin rydych am hawlio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol arno cyn belled â'i fod yn bodloni'r amodau canlynol:

- Mae gennych y gallu i roi da byw addas allan yn seiliedig ar yr hawliau cofrestu sydd gennych

  A

- Rydych chi'n rhoi sylw dyladwy i'r holl ofynion rheoli perthnasol (os yn gymwys) ar y tir comin er lles iechyd anifeiliaid neu reoli cynefinoedd.

**Os ydych:**

- **yn dileu hawliau pori tir comin**
- **heb ychwanegu hawliau, neu**
- **heb dicio blwch/blychau 'Hawlio SFS'**

**byddwn yn cymryd nad ydych am hawlio ar eich tir comin eleni.**

**Pwysig**: gallai arwynebedd porthiant hawliau pori Tir Comin amrywio o flwyddyn i flwyddyn.




Yn ôl i'r cynnwys

**Data Caeau**

**Cyflwyniad**

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn yn ofalus y canllawiau ar gyfer llenwi'r adran hon yn eich SAF ac yn darllen ' '*Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canllawiau 2026*' a '*Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026: llyfryn rheolau ar gyfer cynlluniau coetir ac organig wrth hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy*'.

**Dylech gadarnhau bod unrhyw newidiadau a wnaed yn sgil archwiliad tir a gynhaliwyd yn 2025 wedi'u gwneud i'ch SAF. Byddech wedi cael y manylion yn IACS 7a.**

Gofalwch eich bod yn newid eich SAF i gynnwys yr ymateb rydych wedi'i gael i unrhyw apêl rydych wedi'i wneud.

**Manylion sydd wedi'u llenwi ar eich rhan**

Byddwn wedi nodi ar eich SAF ar eich rhan gymaint o wybodaeth am eich caeau â phosibl, gan gynnwys manylion Nodweddion Parhaol. Bydd hyn yn dibynnu a fyddwn wedi dilysu'ch datganiad yn y flwyddyn cynt neu wedi cynnal asesiad mapio o'r cae.

Peidiwch â newid y manylion er mwyn adlewyrchu yn unig yr hyn gafodd ei ddatgan yn 2025 gan y gallai'r wybodaeth honno fod wedi'i diweddaru wrth brosesu'ch SAF 2025 neu yn sgil diweddaru'r mapiau.

Gwnaeth ymarfer Cadarnhau Data y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bennu arwynebeddau o 0.01ha neu uwch lle and oedd didyniad am goed/coetir wedi'i nodi fel nodwedd parhaol. Fe'ch cynghorir i wirio bod pob coeden/coetir 0.01ha neu uwch ar eich daliad wedi'i ddatgan. Os nad ydynt dylech wneud yr addasiadau angenrheidiol ar eich datganiad SAF 2026.

Chi sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr holl fanylion rydych yn eu datgan yn yr adran hon yn gywir a'u bod yn adlewyrchu sefyllfa'r holl dir sydd o dan eich rheolaeth lwyr ar **15 Mai 2026.** Mae tir 'o dan rheolaeth lwyr ichi:

- os mai chi sy'n berchen arno
- os ydych yn denant â 'meddiannaeth egsgliwsif' o dan naill ai Denantiaeth Busnes Fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau 1995 neu denantiaeth lawn o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- os ydych yn denant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod
- os ydych wedi caniatáu trwydded o dan drefniant trwyddedu penodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn ond eich bod wedi cadw rheolaeth ar y tir.

Peidiwch â datgan tir rydych yn berchen arno ond yn ei rentu allan (gan nad yw'r tir hwn o dan eich rheolaeth lwyr. Y ffermwr sy'n ei rentu ddylai ddatgan y tir hwnnw).

**Manylion tir newydd**

Rhaid ichi gynnwys ar eich SAF yr holl dir sydd gennych o dan eich rheolaeth lwyr am 10 mis neu fwy, gan gynnwys ar 15 Mai.

Er enghraifft, tir newydd ei brynu neu goetir/draciau nad ydych wedi'u datgan ar eich SAF o'r blaen. Gallech gael cosb ariannol am beidio â datgan yr holl dir sydd o dan eich rheolaeth lwyr.

**Newidiadau i Barseli Tir**

**PWYSIG** – Os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd angen ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein cyn ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir.

**Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i'ch parsel cyn llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid ddiweddaru'r wybodaeth** unwaith eto.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i gaeau ac os ydych wedi trosglwyddo tir o fewn 30 diwrnod ar ôl y newid.

Os ydych wedi cyflwyno Rheoli Fy Nhir ers dechrau eich cais SAF, bydd y neges blwch testun canlynol yn cael ei harddangos wrth ailagor y SAF. Darllenwch y testun a dewiswch y botwm 'Parhau' i adnewyddu'r data parsel tir ar eich cais.




**Pwysig**: Bydd yr holl nodweddion parhaol hysbys yn cael eu rhestru ond ni ellir eu diwygio yma. Os hoffech wneud unrhyw newidiadau i nodweddion parhaol neu ychwanegu nodweddion newydd, bydd angen i chi gyflwyno manylion Rheoli Fy Nhir gan ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein cyn i chi wneud unrhyw ddiwygiadau i'r parsel tir. Os byddwch yn cyflwyno'r manylion Rheoli Fy Nhir ar ôl gwneud unrhyw newidiadau i'r parsel, bydd y newidiadau'n cael eu colli a bydd yn rhaid i chi eu diweddaru eto. Bydd yr wybodaeth a roddwch ar gyfer Rheoli Fy Nhir, ar ôl ei chyflwyno, yn diweddaru'r cais SAF yn awtomatig.

Os ydych wedi dod yn gyfrifol am dir, dylai'r perchennog neu'r tenant blaenorol allu dweud wrthych a ydy'r tir eisoes wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

**Pwysig**: Dilëwch gaeau:

- os ydych wedi rhoi'r gorau i rentu tir
- os ydych wedi gwerthu'r tir
- os ydych wedi rhentu tir allan o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, Tenantiaeth Busnes Fferm neu Denantiaeth Lafar
- os ydych wedi rhoi manylion anghywir am gae.

Ni fydd unrhyw newidiadau a wneir drwy Rheoli Fy Nhir neu fel rhan o Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar y Ffurflen Cais Sengl yn cael eu hadlewyrchu ar unwaith ar Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd y newidiadau hyn yn cael eu diweddaru drwy gydol 2026 ac unwaith y bydd y newidiadau wedi'u cadarnhau bydd y map yn cael ei ddiweddaru.

### Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Ar gyfer pob cae rydych chi'n hawlio Haen Gyffredinol yr SFS arno, **rhaid** i chi agor yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd i gadarnhau'r cynefin a'r canopi coed a lleoliad y cynefin dros dro, lle mae hynny'n gymwys ar y cae.

### Cwsmeriaid yng ngwledydd eraill Prydain

Dim ond manylion tir yng Nghymru fydd yn cael eu nodi ar eich rhan yn yr adran hon. Dylech nodi manylion caeau mewn gwledydd eraill ar ffurflen y wlad dan sylw.

Yn ôl i'r cynnwys

## Rhestr Data Caeau

Pan fyddwch chi'n agor yr Adran Rhestr Data Caeau am y tro cyntaf, fe welwch neges naid. Ar ôl ei darllen, cliciwch ar **'Parhau'.** Os byddwch chi'n mynd yn ôl i'r adran hon yn ystod yr un sesiwn, ni welwch y neges eto. Ond, os byddwch chi'n **gadael** y cais ac yn ei agor eto yn nes ymlaen, bydd y neges naid yn ymddangos eto.




Mae'r is-adran hon yn rhestru holl gaeau 'ch busnes fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

## Chwilio am barsel tir

Mae'r system yn gallu chwilio am gaeau penodol gan ddefnyddio Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae a / neu Enw'r Cae.

Cliciwch ar 'Chwilio' i weld y cae cyntaf sy'n cyfateb i'ch chwiliad. Caiff rhes y cae hwn ei liwio'n wyrdd.

Yna cliciwch ar 'Chwilio Nesaf' i symud i'r cae nesaf sy'n cyfateb i'ch chwiliad.

Os ydych am weld Enwau'r Caeau, ticiwch y blwch 'Dangos Enwau Caeau'.  Dilewch y tic os ydych am guddio enwau'r caeau.


Rhestr Data Caeau

Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Nesaf

Nid oes modd newid yr wybodaeth ar y Rhestr Data Caeau. Cliciwch ar 'Agor' i weld a newid manylion cae. **RHAID** edrych ar bob cae cyn cyflwyno'r SAF.

Mae camgymeriad yn un neu fwy o'r parseli tir. Cliciwch 'Agor' i weld y manylion a chywiro unrhyw gamgymeriadau.

Chwilio am barsel tir:

e.e. 'SH1234 1248' / 'Maes Isaf' / 'SH1' | Chwilio | Chwilio am y nesaf

Gweld opsiynau: Pob Cynllun

Dangos Enwau Caeau ☑ | Cynlluniau Coetir Help | SFS - yr Haen Opsiynol Help | + Ychwanegu Cae

| | | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | SFS - yr Haen Gyffredinol | WCM | WCP | GWCP | GCM | GCP | OFS | OCS | HBR | Dod yn ôl. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.75 | | | | | | | | | | ⚑ | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.07 | ☑ | | | | | | | | ✓ | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.79 | | ☑ | | | | | | | | | Dilëwch |
| Agor | ! | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.81 | | | | | | | | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.61 | | | ☑ | | | | | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.06 | | | | ☑ | | | | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.27 | | | | | ☑ | | | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.40 | | | | | | ☑ | | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 0.72 | | | | | | | ☑ | | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.65 | | | | | | | | ☑ | | | Dilëwch |

Cewch ychwanegu neu ddileu caeau yn yr is-adran hon, ond chewch chi ddim gwneud unrhyw newidiadau eraill.

## Ychwanegu Cae

Bydd y botwm '+Ychwanegu Cae' yn caniatáu ichi ychwanegu cae(au) newydd at y rhestr o'r rheini rydych am eu datgan.

Os ydych wedi cyflwyno Rheoli Fy Nhir sy'n rhannu a/neu'n uno caeau a/neu'n cofrestru cae newydd, bydd y newidiadau gafodd eu gwneud ar eich Rheoli Fy Nhir yn cael eu hychwanegu'n awtomatig at eich cais.  Bydd angen ichi wneud yn siŵr eu bod wedi'u hychwanegu cyn ichi wneud unrhyw newidiadau yn yr Adran Data Caeau.  Os nad ydyn nhw, yna gallwch eu hychwanegu trwy ddefnyddio'r botwm '+Ychwanegu Cae'.

Os ydych wedi prynu neu rentu tir ychwanegol a'ch bod wedi nodi hynny ar eich Rheoli Fy Nhir, dylai'r tir fod wedi cael ei ychwanegu'n awtomatig at eich cais.  Bydd angen ichi wneud yn siŵr ei fod wedi'i ychwanegu at eich cais ond os nad yw, gallwch ei ychwanegu drwy ddefnyddio'r botwm '+Ychwanegu Cae'.

Os ydych wedi prynu neu rentu tir ychwanegol a bod y gwerthwr neu'r lesiwr wedi cyflwyno Rheoli Fy Nhir, os nad yw'r cae wedi'i restru, bydd angen i chi ychwanegu'r tir at eich cais drwy ddefnyddio'r botwm '+Ychwanegu Cae'.

Yn y ffenest a ddangosir yn y sgrin lun isod, nodwch Gyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae a chlicio 'Iawn'.  Yna gallwch nodi manylion y cae newydd.  Yna, rhaid dileu'r cae gwreiddiol gafodd ei nodi ar eich rhan neu ei newid yn ôl y gofyn.

Pan fyddwch yn ychwanegu cae, rhaid clicio 'Safio' cyn mynd i'r cae nesaf.




**Dilëwch / Adfer**

Defnyddiwch y botwm ‘Dilëwch’ i ddileu cae o'r datganiad. Gallwch roi cae sydd wedi'i ddileu yn ôl trwy glicio ar y botwm 'Adfer'.

**Agor**

Bydd y botwm ‘Agor’ yn agor adran Manylion Parseli Tir ichi gael hawlio taliadau a newid eich datganiad ar gyfer pob cae sydd ar y rhestr.

**Gweld Opsiynau**

Trwy ddewis yr opsiynau yn y gwymplen, gallwch ddewis faint o wybodaeth am y cynlluniau i'w dangos. Er enghraifft:

- dewiswch **Pob Cynllun** i ddangos yr holl gynlluniau rydych yn hawlio eu taliad
- dewiswch **SFS - yr Haen Gyffredinol** i ddangos manylion eich hawliad am SFS -yr Haen Gyffredinol
- dewiswch **Gynlluniau Coetir** – i ddangos yr holl gynlluniau rydych yn hawlio eu taliad
- dewiswch **SFS - yr Haen Opsiynol** - i ddangos yr holl gynlluniau rydych yn hawlio eu taliad.

Gallai hyn fod yn ddefnyddiol os ydych yn defnyddio dyfais â sgrin fach.

Bydd ticiau hawlio SFS – yr Haen Gyffredinol, ticiau hawlioCynlluniau Coetir, ticiau hawlio SFS – yr Haen Opsiynol , statws y HBR (Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd)a’r faner ‘Dod yn ôl’ yn ymddangos wrth gae pan fyddwch yn agor Manylion Parseli Tir y cae hwnnw.

I weld yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, ewch i’r cae unigol ar eich cais ac i weld map yr SFS o'ch tir, bydd angen ichi adael y cais a chlicio ar y tab 'Tir' ar dudalen Hafan RPW Ar-lein.

Yn ôl i’r cynnwys

## Manylion Parseli Tir

Efallai na welwch yr isod os nad ydyn nhw'n berthnasol i'ch cais chi.



Manylion Parseli Tir

Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Yn ôl i'r rhestr | Nesaf

[redacted]

Dileu Cae

**Newidiadau i Barseli Tir**

Os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd **angen** ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein **cyn** ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir hwn.

**Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i'ch parsel cyn llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid ddiweddaru'r wybodaeth unwaith eto.**

| | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | Deiliadaeth Help | Dod yn ôl. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.99 | O - Yn eiddo i chi | ☐ |

Cnydau, Nodweddion Parhaol a Chynefin Dros Dro

| Cnwd | Arwynebedd | Ail Gnwd Help | Mis Plannu Help | + Ychwanegu cnwd |
|---|---|---|---|---|
| GR2 | 1.99 | | | Dilëwch |

Hawliau

Rhaid ichi ticio i nodi pa gynllun yr hoffech ei hawlio ar y parsel hwn.

| | Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol | | Cynlluniau Coetir | | | | | Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | SFS - yr Haen Gyffredinol (SFS) | Ar gael am 10 mis Help | Cynnal Creu Coetir (WCM) | Premiwm Creu Coetir (WCP) | Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) | Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) | Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) | Ffermio Organig - Cymorth (OFS) | Cynllun Troi'n Organig (OCS) |
| Hawlio | ☐ | Ydy | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf


Manylion Parseli Tir

Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Yn ôl i'r rhestr | Nesaf

[redacted]

Dileu Cae

Newidiadau i Barseli Tir

Os oes angen newid parsel tir arnoch, fel newid ffin, rhannu/uno caeau neu ychwanegu/dileu neu newid nodwedd barhaol, bydd **angen** ichi gyflwyno Rheoli fy Nhir gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein **cyn** ichi wneud unrhyw newidiadau ar y parsel tir hwn.

**Bydd unrhyw newidiadau rydych yn ei wneud i'ch parsel cyn llenwi Rheoli fy Nhir yn cael eu colli a bydd rhaid diweddaru'r wybodaeth unwaith eto.**

| Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | Deiliadaeth Help | Dod yn ôl. |
|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.99 | O - Yn eiddo i chi | ☐ |

Cnydau, Nodweddion Parhaol a Chynefin Dros Dro

| Cnwd | Arwynebedd | Ail Gnwd Help | Mis Plannu Help | + Ychwanegu cnwd |
|---|---|---|---|---|
| GR2 | 1.99 | | | Dilëwch |

Hawliau

Rhaid ichi ticio i nodi pa gynllun yr hoffech ei hawlio ar y parsel hwn.

| | Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol | | Cynlluniau Coetir | | | | | Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | SFS - yr Haen Gyffredinol (SFS) | Ar gael am 10 mis Help | Cynnal Creu Coetir (WCM) | Premiwm Creu Coetir (WCP) | Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) | Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) | Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) | Ffermio Organig - Cymorth (OFS) | Cynllun Troi'n Organig (OCS) |
| Hawlio | ☐ | Ydy | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Datganiad perthi/gwrychoedd ar gyfer y gofyniad 10% o gynefin

**Os ydych eisoes wedi bodloni'r gofyniad 10% o gynefin o'r datganiad rydych chi wedi'i wneud ar gyfer cynefin a choetir llydanddail ar gyfer eich fferm, nid oes angen i chi ddatgan unrhyw berthi/gwrychoedd.**

Os ydych yn dymuno defnyddio perthi/gwrychoedd i fodloni'r gofyniad cynefin o 10%, bydd angen i chi ddatgan:

- unrhyw berthi/gwrychoedd sy'n bodloni'r gofyniad cyflwr da a/neu
- unrhyw berthi/gwrychoedd newydd a grëwyd drwy gynllun Llywodraeth Cymru ers 1 Ebrill 2022.

**Nodwch:** Isafswm hyd y berth/gwrych y gallwch ei ddatgan ar gyfer naill ai un ochr neu'r ddwy ochr yw 20 metr.

| | Rheolaeth ar un ochr (50%) | Rheolaeth ar y ddwy ochr (100%) |
|---|---|---|
| Hyd y Perthi cymwys mewn metrau | | |

Arwynebedd Tir wedi'i Wella

Rhaid i chi dicio i gadarnhau os nad yw'r arwynebedd hwn wedi derbyn mewnbynnau (naturiol ac artiffisial) a/neu galch o'r blaen.

| Arwynebedd Tir wedi'i Wella Help | Nad yw'r arwynebedd hwn wedi derbyn mewnbynnau (naturiol ac artiffisial) a/neu galch o'r blaen |
|---|---|
| 1.99 | ☐ |

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

## Help ar gyfer y Dudalen hon

Bydd y botwm hwn yn agor ffenest Porwr newydd, i roi help ichi gyda'r dudalen hon yn unig.

## Yn ôl i'r rhestr

Bydd y botwm hwn a ddangosir yn y sgrin lun isod yn mynd â chi yn ôl i'r 'Rhestr Data Caeau'.



## Dileu Parsel

Defnyddiwch y botwm a ddangosir yn y sgrin lun cyntaf isod i ddileu'r parsel hwn o'ch datganiad.  Gallwch adfer cae rydych wedi'i ddileu trwy ddefnyddio'r botwm 'Adfer Cae' a ddangosir yn yr ail sgrin lun isod.







## Cyfeirnod y Ddalen / Rhif y Cae

Os ydym wedi llenwi manylion y cae ar eich rhan, ni chewch eu newid.

## Enw Cae

Byddwn wedi nodi hwn ar eich rhan os gwnaethoch nodi Enw Cae ar eich SAF yn 2025.  Cewch ychwanegu ato a'i newid yn ôl yr angen.

## Maint y Cae

Nid oes modd newid hwn.  Dyma faint y cae cyfan yn ôl yr wybodaeth a oedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2026.  Os ydy maint y cae wedi newid, rhaid cyflwyno 'Rheoli fy Nhir' os nad ydych eisoes wedi gwneud.

## Deiliadaeth

Byddwn yn llenwi'r rhan hon ar eich rhan ichi lle medrwn.  Rhaid i chi ychwanegu'r ddeiliadaeth os nad yw wedi'i llenwi ar eich rhan.

Dyma'r codau Deiliadaeth:

- **A** Tenantiaeth Amaethyddol Lawn
- **B** Tenantiaeth Busnes Fferm
- **C** Tenantiaeth Lafar
- **D** Trwydded Bori
- **O** Yn eiddo ichi

Os ydych wedi rhentu tir allan, peidiwch â'i ddatgan ar eich SAF os nad yw o dan eich rheolaeth lwyr.

Os ydy'ch tir o dan drwydded bori tymor byr ar 15/05/2026 ac nad yw'r tir o dan eich rheolaeth lwyr, ni ddylech ei nodi yn eich SAF gan nad yw'n rhan o'ch daliad.

## Dod yn ôl

Dylech dicio'r blwch hwn os ydych am ddod yn ôl i'r cae hwn rywdro yn y dyfodol.

## Cnydau, Nodweddion Parhaol a Chynefin Dros Dro

### Cnwd

Mae hwn yn cynnwys y codau defnyddio tir ar gyfer cnydau a nodweddion heblaw cnydau. Gweler *'Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026: llyfryn rheolau ar gyfer Cynlluniau Coetir ac Organig wrth hawlio Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – yr Haen Gyffredinol'* am restr lawn o'r codau cnydau.

Bydd y codau cnydau wedi'u llenwi ar eich rhan lle medrwn. Cywirwch wybodaeth anghywir ac ychwanegu cnydau sydd ar goll, gan ddefnyddio'r rhestr yn y gwymplen.

**Tyfu er mwyn yr Amgylchedd**: Dylech nodi cnydau sy'n cael eu plannu ar gyfer y Cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn yr Adran Data Caeau gan ddefnyddio cod perthnasol y cnwd sy'n cael ei blannu.

### Codau cnydau nodweddion y dirwedd a thir anghymwys

Mae'n bwysig eich bod yn asesu'r darnau hyn o dir ar eich daliad yn unol â'r esboniad yn Atodiad 1 *'Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026: llyfryn rheolau ar gyfer Cynlluniau Coetir ac Organig wrth hawlio Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – yr Haen Gyffredinol'* a datgan y codau cnydau priodol. O beidio â gwneud, mae perygl ichi orddatgan yr arwynebedd cymwys ar gyfer 2026 a gallai hynny arwain at eich cosbi.

**Pwysig**: Bydd yr holl nodweddion parhaol hysbys yn cael eu rhestru ond ni ellir eu diwygio yma. Os hoffech wneud unrhyw newidiadau i nodweddion parhaol neu ychwanegu nodweddion newydd, bydd angen i chi gyflwyno manylion Rheoli Fy Nhir gan ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein cyn i chi wneud unrhyw ddiwygiadau i'r parsel tir. Os byddwch yn cyflwyno'r manylion Rheoli Fy Nhir ar ôl gwneud unrhyw newidiadau i'r parsel, bydd y newidiadau'n cael eu colli a bydd yn rhaid i chi eu diweddaru eto. Bydd yr wybodaeth a roddwch ar gyfer Rheoli Fy Nhir, ar ôl ei chyflwyno, yn diweddaru'r cais SAF yn awtomatig.

Os gwelon ni dir anghymwys ar eich daliad wrth ddilysu cais 2025, byddwn wedi llenwi hyn ar eich SAF ar eich rhan.

### Codau ar gyfer porfa

Ar gyfer tir sydd wedi bod o dan borfa am 5 mlynedd neu fwy, defnyddiwch GR2. Ar gyfer tir sydd wedi bod o dan borfa am lai na 5 mlynedd, defnyddiwch GR1. Er mwyn cael troi tir GR2 yn GR1, bydd y tir wedi bod yn rhan o gylchdro cnydau yn y 5 mlynedd diwethaf. Os cafodd tir a fu o dan borfa am fwy na 5 mlynedd ei ailhau â phorfa yn y 12 mis diwethaf, defnyddiwch y cod GR8.

### Arwynebedd

Byddwn yn llenwi'r golofn hon ar eich rhan os medrwn. Cywirwch wybodaeth anghywir ac ychwanegu arwynebeddau sydd ar goll.

Mae'n bwysig wrth lenwi'ch SAF eich bod yn cadarnhau fod y codau cnydau / defnyddio tir a'r arwynebeddau ar eich cais i gyd yn adlewyrchu'r sefyllfa fel ag y mae ar eich daliad.

Os nad ydym wedi nodi'r arwynebedd cywir neu os yw ar goll, cofnodwch arwynebedd y cae mewn hectarau hyd at 2 le degol.

Os yw arwynebedd nodwedd barhaol sydd wedi'i datgan ar y SAF wedi'i osod fel 0.00, **rhaid** i chi ddatgan yr un arwynebedd ag y gwnaethoch ei ddatgan yn eich Rheoli Fy Nhir.

**Cynefin Dros Dro**

Os ydych wedi creu cynefin dros dro, bydd angen i chi ddatgan cod y cnwd a'r arwynebedd. Bydd angen i chi hefyd gynnwys arwynebedd y cynefin dros dro rydych chi wedi'i greu ar eich Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

**Ail Gnwd**

Rhowch god cnwd/defnyddio tir yma os ydych yn hawlio :

- SFS – yr Haen Gyffredinol a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai gynnwys lle byddwch yn creu cynefin dros dro
- Tyfu dros yr Amgylchedd a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai
- Cynllun Troi'n Organig a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai
- Ffermio Organig – Cymorth a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae yn y cae ar ôl 15 Mai.

**Mis Plannu**

Os ydych chi'n datgan Ail Gnwd, rhaid ichi ddewis Mis Plannu priodol o restr y gwymplen.

**Ychwanegu Cnwd**

Pwyswch ar y botwm hwn os oes angen ychwanegu rhes arall ar gyfer y cae i gofnodi cnwd arall.

**Dilëwch (neu Adfer)**

Pwyswch y botwm hwn i dynnu'r cnwd hwn o'ch datganiad. Os hoffech dynnu'r cae cyfan o'ch datganiad, defnyddiwch y botwm 'Dileu Cae'. Os ydych wedi dileu cnwd gafodd ei roi ar y tabl ar eich rhan ond eich bod am ei roi yn ôl, pwyswch y botwm 'Adfer'.

**Pwysig** - Nid yw'r botymau dileu nac adfer ar gael ar gyfer unrhyw godau cnydau ar nodwedd barhaol. Er mwyn tynnu, newid neu ychwanegu codau cnydau ar nodweddion parhaol, rhaid cyflwyno Rheoli Fy Nhir.

Yn ôl i'r cynnwys

## Hawlio

**Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol**

**Rhaid** ticio'r blwch hawlio os ydych am gynnwys y cae hwn i gefnogi'r taliad ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol.

Ar ôl ichi ychwanegu'r tic hawlio ac 'Ydy' sydd wrth 'Ar Gael am 10 mis', bydd y sgrin yn dangos yr **Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.** Rhaid i chi agor yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd i gadarnhau'r cynefin a'r canopi coed a lleoliad y cynefin dros dro (lle bo'n berthnasol) ar y parsel tir.

**Ar gael am 10 mis**

Pan fyddwn wedi nodi bod gennych reolaeth lwyr dros y parsel tir am gyfnod o 10 mis o'r flwyddyn galendr gan gynnwys 15 Mai, byddwn wedi llenwi'r blwch 'Ar gael am 10 Mis' ymlaen llaw.

Os nad ydym wedi gallu penderfynu eich bod yn rheoli'r parsel tir yn llwyr am 10 mis o'r flwyddyn galendr, **NI** fyddwn wedi llenwi'r blwch 'Ar gael am 10 Mis' ymlaen llaw. **Rhaid** i chi gadarnhau a oes gennych reolaeth lwyr dros y parsel am gyfnod o 10 mis o'r flwyddyn galendr, gan gynnwys 15 Mai. <u>Nid oes angen i'r cyfnod 10 mis fod yn barhaus.</u>

Os nad ydych yn bodloni'r rheol 10 mis o fewn y flwyddyn galendr a bod gennych **denantiaeth newydd o dair blynedd neu fwy**, sydd wedi dechrau cyn 15 Mai 2026, dylech gadarnhau eich bod wedi bodloni'r rheol 10 mis gan y bydd rhanddirymiad yn cael ei weithredu yn 2026.

**Ni** fyddai'r rhanddirymiad hwn yn berthnasol ar gyfer tir a ildiwyd o denantiaethau sy'n dod i ben ar ôl 15 Mai 2026.

## Cyd-bori

Os bydd dau hawlydd neu fwy yn cyd-bori tir nad yw'n dir comin (a heb gytundeb ffermio cyfran), yna caiff y ddau hawlio ar y rhan boradwy benodol o'r cae sydd ar gael iddynt (h.y. y mae ganddynt yr hawl i'w ddefnyddio).

Rhaid gofalu nad yw cyfanswm arwynebedd y tir sydd ar gael i bob hawlydd yn fwy na chyfanswm arwynebedd y parsel. Ni chaiff rhannau anghymwys y parsel eu dangos ar y SAF.

Mae'n bwysig felly bod hawlwyr sy'n cyd-bori darnau o dir nad yw'n dir comin yn gofalu nad ydynt yn cyflwyno data anghywir sy'n gwrthdaro ac a allai arwain at orddatgan cyfanswm arwynebedd y parsel.

Ni fydd y tir yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin na'r Taliad Cynnal Coetir ac ni fydd yn cyfrif at y gofyn bod 10% yn gynefin, felly ni fydd yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gael i'w gwblhau ar y caeau hyn.

Os ydych chi'n ychwanegu parsel/parseli cyd-bori presennol gan gwsmer arall i'ch SAF, ar ôl i chi ychwanegu'r parsel/parseli ar yr Adran Data Caeau, bydd angen i chi adael y SAF er mwyn adnewyddu'r data, er mwyn diweddaru'r wybodaeth Cyd-bori.

### Cyd-bori - arwynebedd cymwys

**Pwysig:** Dim ond os yw'r cae wedi'i nodi fel cae Cyd-bori yn ein system y bydd Cyd-bori - Arwynebedd ar Gael yn cael ei ddangos.

Ar gyfer unrhyw barseli Cyd-bori, bydd yr arwynebedd yn cael ei phoblogi ymlaen llaw a bydd yn dangos yr arwynebedd cymwys o dan yr Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sef cyfanswm maint y cae minws arwynebedd yr holl nodweddion anghymwys.

### Cyd-bori - arwynebedd yr hawliad

**Pwysig:** Dim ond os yw'r cae wedi'i nodi fel cae Cyd-bori yn ein system y bydd Cydbori - Arwynebedd Cymwys yn cael ei ddangos.

Ar gyfer unrhyw barseli Cyd-bori, bydd angen i chi ddatgan yr arwynebedd Haen Cyffredinol - y Cynllun Ffermio Cynaliadwy heb gynnwys unrhyw nodweddion anghymwys lle mae gennych reolaeth dros rhan honno o'r parsel am 10 mis.

| | Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | SFS - yr Haen Gyffredinol (SFS) | Ar gael am 10 mis Help | Cydbori - arwynebedd cymwys | Cydbori - arwynebedd yr hawliad Help |
| **Hawlio** | ☑ | Ydy | [redacted] | |

## Cynlluniau Coetir

Bydd gwybodaeth ond yn ymddangos os ydych wedi hawlio am unrhyw un o'r Cynlluniau Coetir yn yr adran Hawliau.

Os bydd ein cofnodion yn dangos bod gennych gontract a/neu ddyfarniad grant, byddwn yn ticio blychau hawlio'r Cynlluniau Coetir fesul cae ar eich rhan.

Os nad oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant bellach ar gyfer unrhyw gynlluniau rydym wedi'u ticio, rhaid dileu'r tic.

Os oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant ar gyfer cynlluniau nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a'ch bod am hawlio'r cynlluniau hynny, rhaid rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol.

### WCM

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad yr opsiwn Cynnal Creu Coetir (WCM) ar ôl cwblhau gwaith plannu newydd drwy Grant Creu Coetir (WCG) a/neu Grantiau Bach - Creu Coetir (SGWC).

### WCP

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad yr opsiwn Premiwm Creu Coetir (WCP) ar ôl cwblhau gwaith plannu newydd drwy Grant Creu Coetir (WCG) a/neu Grantiau Bach - Creu Coetir (SGWC).

### GWCP

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP).

### GCM

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM).

### GCP

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP).

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol

Bydd gwybodaeth ond yn ymddangos os ydych wedi hawlio am SFS – yr Haen Opsiynol yn yr adran Hawliau.

Os bydd ein cofnodion yn dangos bod gennych ddyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, byddwn yn ticio blychau hawlio'r **Cynllun Troi'n Organig (OCS)** fesul cae ar eich rhan.  Rhaid i chi gadarnhau bod hyn yn iawn a'i newid os oes angen.  O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo'ch talu

Os nad oes gennych ddyfarniad grant bellach ar gyfer Cynllun Troi'n Organig ac rydym wedi ticio blychau hawlio fesul cae ymlaen llaw, rhaid i chi ddileu'r ticiau hawlio.

Os oes gennych ddyfarniad grant ar gyfer Cynllun Troi'n Organig nid ydym wedi ticio blychau hawlio fesul cae ymlaen llaw, a'ch bod am hawlio am y cynllun hwn, rhai i chi rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol.

**Sylwer** – Os ydych wedi hawlio Ffermio Organig – Cymorth yn yr Adran 'Hawliau', ni fydd ticiau blychau hawlio fesul cae wedi cael ei rhoi ymlaen llaw.  Bydd angen i chi ychwanegu tic hawlio ar bob parsel(i) tir cymwys yr hoffech hawlio taliad arnynt.

### Cynllun Troi'n Organig

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad Cynllun Troi'n Organig.

### Ffermio Organig - Cymorth

Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am ddefnyddio'r cae hwn i gefnogi taliad Ffermio Organig - Cymorth.

### Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Rhaid i chi agor yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd i gadarnhau'r cynefin a'r canopi coed a lleoliad y cynefin dros dro, lle bo'n berthnasol ar y parsel hwn.

Ar gyfer pob parsel rydych chi'n hawlio arno o dan Haen Gyffredinol yr SFS, rhaid cynnal Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd a rhaid marcio bod y cae 'Wedi'i Adolygu' cyn y gellir cyflwyno'r SAF.

HBR yw eich cyfle olaf i gadarnhau, ychwanegu, tynnu, neu ddiwygio'r ardaloedd canlynol ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS:

- Cynefin presennol fel y'i diffinnir o dan UA5: Cynnal Cynefinoedd: Rhaid cadarnhau pob cynefin lled-naturiol fel un o'r 12 categori cynefin bras.
- Ardaloedd o dir sy'n cael eu defnyddio i greu Cynefinoedd Dros Dro yn unol ag UA6 Cynefin Dros Dro, os oes angen.
- Canopi coed: Bydd angen i chi gadarnhau ardaloedd o ganopïau coed ar eich daliad, gan gynnwys coetir llydanddail sefydledig o 0.1ha neu fwy a fydd yn cyfrif tuag at UA9: Cynnal coetir.

Os yw'r cynefin yn bresennol ar haen gyfyngiad HBR, rhaid i chi ddarparu dogfennau ategol os ydych am leihau neu ddileu'r cynefin presennol.

Cyflwynwch eich dogfennau ategol drwy RPW ar-lein. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol sy'n dileu neu'n newid cynefin ar haen gyfyngiadau yw 31 Rhagfyr 2026.

Os ydych wedi dileu Cynefin dros haen gyfyngiadau, byddwch yn cael gwybod os yw hyn wedi'i dderbyn ar eich cyfrif ar-lein RPW yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Cyfyngiadau.**

Dyma'r haenau cyfyngiadau a gellir eu troi ymlaen gan ddefnyddio Gweld Opsiynau:

- Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) – gwrthod sgrinio
- Opsiynau Rheoli Glastir
- Safleoedd Dynodedig

Pan fydd y neges dystiolaeth ar yr haen gyfyngiadau yn ymddangos a'ch bod yn troi'r 3 haen gyfyngiadau ymlaen ac nad oes gorgyffwrdd gweladwy ar y map, mae'n annhebygol y bydd angen i chi gyflwyno rhagor o dystiolaeth i gefnogi dileu'r cynefin.

Gall yr haen AEA a wrthodwyd ddangos rhai ardaloedd a oedd yn destun Cais Sgrinio AEA ac a dderbyniwyd, diwygiwyd, derbyniwyd yn rhannol neu roedd angen tystiolaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd cyn y gall y prosiect fynd ymlaen. Os yw hyn yn wir a'ch bod am gael gwared ar y Cynefin a nodwyd ar yr haen hon, rhaid i chi ddarparu'r dogfennau cyfeirio AEA a gawsoch ar adeg y penderfyniad. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses i benderfynu ac ystyried y penderfyniad ar gyfer tynnu unrhyw Gynefin o'ch daliad.

Os ydych yn edrych ar sgrin fapio'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ac am newid eich dewis iaith, bydd rhaid i chi fynd yn ôl i'r dudalen Manylion Data Caeau i newid yr iaith cyn dod yn ôl i'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd lle bydd yr iaith wedi cael ei newid.

**Crynodeb**

Bydd y crynodeb yn dangos statws parseli 2026, cyfeirnod y ddalen, rhif y cae, enw'r cae, maint y cae a'r ddeiliadaeth.

Fe welwch hefyd arwynebedd y Cynefinoedd Parhaol, Arwynebedd y Cynefinoedd Dros Dro, Arwynebedd y Coetir ar gyfer UA9 ac Arwynebedd y Coetir Llydanddail (yn cyfrif tuag at y 10% yn Gynefin) yn y parsel.

Arwynebedd y Cynefinoedd Parhaol a ddangosir yw cyfanswm arwynebedd yr holl ddarnau o Gynefin Parhaol a ddangosir yn y tab Cynefin. Bydd cyfeirnod 'H' wrth bob un o'r Cynefinoedd hyn.

Arwynebedd y Cynefinoedd Dros Dro a ddangosir yw cyfanswm arwynebedd yr holl ddarnau o Gynefin Dros Dro a ddangosir yn y tab Cynefin. Bydd cyfeirnod 'TH' wrth bob un o'r Cynefinoedd hyn.

Cyfanswm Arwynebedd y Coetir a ddangosir yw swm arwynebedd canopi grwpiau o goed a ddangosir yn y tab Canopi Coed sydd 0.10ha neu fwy o faint.

Arwynebedd y Coetir Llydanddail (sy'n cyfrif tuag at y 10% o Gynefin) yw swm arwynebedd y grwpiau o ganopïau Coed a ddangosir yn y tab Canopi Coed sydd 0.10ha neu fwy o faint ac sy'n perthyn i'r categori canopi coed Llydanddail.

Dangosir yr arwynebedd i ddau le degol, ond mae ein system yn eu cofnodi i hyd at dri le degol ac yna'n eu talgrynnu i ddau le degol.  Felly, pan gaiff nifer o arwynebeddau llai eu hadio at ei gilydd, gallai'r cyfanswm sy'n ymddangos yn y tab crynodeb fod yn wahanol i swm arwynebedd y cynefinoedd a'r canopïau coed unigol a ddangosir yn y tab Cynefin a Chanopi Coed.

Byddwch yn gallu gweld map o'r parsel a chaiff ffiniau'r parsel eu lliwio'n las.  Gellir troi nifer o haenau'r map ymlaen neu i ffwrdd drwy ddewis Gweld Opsiynau.  Bydd allwedd yn dangos i chi ba haenau sydd wedi'u troi ymlaen. Gallwch glicio ar y botwm **'Yn ôl i Manylion Parseli Tir'** i fynd yn ôl i weld manylion y data caeau ar unrhyw adeg.



Pan fyddwch chi'n agor tudalen grynodeb yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, bydd statws parseli 2026 wedi'i osod ar **'Heb ei adolygu'**. Ar ôl i chi adolygu cynefinoedd a chanopi coed y parsel a'ch bod yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir, mae botwm i nodi bod y parsel wedi cael ei adolygu ac a fydd yn newid statws y parsel i **'Wedi'i Adolygu'**.




Ni fydd unrhyw newidiadau a wneir drwy Rheoli Fy Nhir neu fel rhan o Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar y Ffurflen Cais Sengl yn cael eu hadlewyrchu ar unwaith ar Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd y newidiadau hyn yn cael eu diweddaru drwy gydol 2026 ac unwaith y bydd y newidiadau wedi'u cadarnhau bydd y map yn cael ei ddiweddaru.

Ar ôl i chi newid statws y parsel i 'Wedi'i Adolygu', gallwch glicio ar y botwm **'Yn ôl i Manylion Parseli Tir**' i fynd yn ôl i weld manylion y data caeau.




Noder: wrth ddewis '**Yn ôl i Manylion Parseli Tir'** gofynnir i chi a ydych wedi gorffen adolygu'r parsel os nad ydych wedi'i farcio fel '**Wedi'i adolygu'**.

Bydd blwch yn ymddangos i chi gadarnhau eich bod wedi gorffen adolygu'r parsel ac am ei farcio fel parsel 'wedi'i adolygu':




Os byddwch yn ticio'r blwch, bydd y statws yn newid i '**Wedi'i adolygu'**.

Os byddwch yn newid cynefin a/neu ganopi coed mewn parsel, bydd botwm **'Dilewch pob newid i'r parsel hwn'** yn ymddangos. Os byddwch yn penderfynu nad yw'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud yn gywir ac nad ydych yn gallu eu dadwneud bob yn un yn y tab perthnasol, gallwch glicio ar y botwm hwn a chaiff yr holl newidiadau gafodd eu gwneud i'r parsel hwnnw eu dileu'n barhaol a bydd y parsel yn mynd yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol. Ni all y system adfer y newidiadau hyn ar ôl i chi glicio ar y botwm.




**Tab Cynefin**

Bydd y tab Cynefin yn dangos y cynefin 'wedi'i gynnwys' ar y parsel i chi.

Dangosir nifer y cynefinoedd wedi'u cynnwys ar y parsel yn y bar ar ochr chwith y sgrin. Er mwyn gweld manylion, gallwch glicio ar y botwm '**Dangoswch y cyfan'** neu'r eicon '**v**'.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm, fe welwch y cyfeirnod unigryw penodedig, e.e. H0001, ar gyfer pob tir cynefin parhaol, y categori a maint y cynefin. Er mwyn cuddio'r manylion, gallwch glicio ar y botwm '**Cuddiwch y cyfan'** neu ar yr eicon **'^'**.

Dangosir map o'r cynefin hefyd. Dangosir y cynefin mewn pinc.

Gellir troi haenau'r mapiau 'ymlaen' ac 'i ffwrdd' gan ddefnyddio'r botwm '**Gweld Opsiynau'** ac mae botymau chwyddo ar gael. Bydd yr haenau cynefin 'ymlaen' yn ddiofyn, a bydd unrhyw haenau a oedd wedi'u troi 'ymlaen' yn y Crynodeb neu'r tab Canopi coed yn aros 'ymlaen' hefyd. Bydd allwedd yn dangos pa haenau sydd wedi'u troi 'ymlaen' ar hyn o bryd.

Os byddwch yn clicio ar gynefin ar y bar ar ochr chwith y sgrin neu'n hofran drosto, caiff ffin y cynefin perthnasol ei lliwio'n wyn.

Os byddwch yn clicio ar gynefin ar y map, caiff y ffin ei lliwio'n wyn a bydd manylion y cynefin ar yr ochr chwith yn ehangu er mwyn dangos botymau ychwanegol.



**Ychwanegu cynefin newydd.**

I ychwanegu cynefin newydd, bydd gennych yr opsiwn i ychwanegu naill ai cynefin parhaol neu gynefin dros dro. Cliciwch ar y botwm ‘**Cynefin’** sydd ei angen arnoch i ychwanegu ardal cynefin newydd.




Gofynnir i chi beth rydych chi am ei wneud:

1. Ychwanegu ardaloedd penodol o gynefin.
2. Llenwi bylchau rhwng cynefinoedd presennol.
3. Llenwi’r parsel cyfan.



**Ychwanegu ardaloedd penodol o gynefin.**

Bydd hyn yn caniatáu i chi ychwanegu ardaloedd o gynefin o fewn y parsel.

Rhaid i chi ddewis o'r rhestr o blith y categorïau o gynefin yn gyntaf. Bydd y categorïau yn y ddwy set yn wahanol, gan ddibynnu a ydych chi'n dewis ychwanegu Cynefin Parhaol neu Gynefin Dros Dro.







Ar ôl dewis categori, gallwch dynnu polygon ar y map er mwyn dangos lleoliad y cynefin. Os caiff ei dynnu y tu allan i'r parsel, caiff ei docio at ffin y parsel.

Gallwch ychwanegu un darn neu sawl darn o gynefin; bydd y cyfeirnod ‘H’ a’r arwynebedd yn cael eu nodi wrth bob darn o gynefin parhaol. Bydd y cyfeirnod ‘TH’ a’r arwynebedd yn cael eu nodi wrth bob darn o gynefin dros dro.




**Llenwi bylchau rhwng cynefin presennol.**

Bydd hyn yn eich galluogi i ychwanegu cynefin at bob rhan o'r parsel nad oes cynefin, canopi coed o 0.1 hectar neu fwy neu nodweddion parhaol a wnaed gan ddyn ynddi ar hyn o bryd.

Bydd y cyfeirnod 'H' a'r arwynebedd yn cael eu nodi wrth bob darn o gynefin. Os oes unrhyw fylchau sy'n llai na 0.01ha ni fyddant yn cael eu llenwi â chynefin.






Os nad oes bylchau i’w llenwi byddwch yn gweld neges gwall.




**Llenwi'r parsel cyfan.**

Bydd hyn yn ychwanegu cynefin i'r parsel cyfan ac yn disodli unrhyw gynefin presennol – os oes unrhyw rannau o'r cynefin presennol sy'n gorgyffwrdd â haen gyfyngiadau – byddwch yn cael eich hysbysu am hynny cyn bwrw ymlaen.



Ni fydd yr opsiwn llenwi parsel cyfan yn disodli unrhyw ganopïau coed dros 0.1ha nau nodweddion parhaol a wnaed gan ddyn na nodweddion dŵr presennol.




Wrth ychwanegu cynefin newydd, ni all orgyffwrdd â darn o gynefin parhaol sydd â chategori gwahanol. Gofynnir i chi a ydy'r cynefin newydd yn cymryd lle'r cynefin presennol.




1. Os byddwch chi'n clicio '**Ydy'**, yna bydd y cynefin presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.
2. Os byddwch chi'n clicio '**Nac Ydy'**, caiff yr ardal ei thocio at ffin y cynefin presennol.
3. Os byddwch chi'n clicio '**Gwaredu Lluniad**', bydd y cynefin newydd yn cael ei ddileu.




Os yw'r cynefin newydd yn cymryd lle’r cynefin presennol yn llwyr, bydd y cynefin presennol yn cael ei ddileu. Ni ellir ei adfer tra bod cynefin arall yn gorgyffwrdd ag ef.




Wrth ychwanegu cynefin dros dro newydd, ni chaiff orgyffwrdd â chynefin parhaol. Gofynnir i chi a ydych am barhau neu ddileu’r lluniad.



1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Parhau**’, caiff y cynefin dros dro ei docio hyd at ffin y cynefin sy’n bod eisoes.

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu Lluniad’**, bydd y cynefin rydych wedi tynnu amlinell ohono yn cael ei ddileu.

## Nodweddion Parhaol a Wnaed gan Ddyn

Os ydych yn creu neu'n golygu darn o gynefin sy'n gorgyffwrdd â nodwedd barhaol a wnaed gan ddyn, bydd neges yn ymddangos i ddweud bod y cynefin rydych wedi’i luniadu yn gorgyffwrdd â nodwedd a waned gan ddyn ac y caiff y cynefin ei docio (ei glipio) at ffiniau’r nodwedd.  Os yw’r nodwedd barhaol yn anghywir, bydd angen ichi lenwi cais Rheoli Fy Nhir i newid y nodwedd cyn y gallwch ddiweddaru’r cynefin.  Unwaith y bydd y cais Rheoli fy Nhir wedi’i gyflwyno, caiff y newid ei drosglwyddo i’r SAF.




1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Parhau**’, caiff y cynefin ei docio at ffin y nodwedd barhaol.

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu Lluniad’**, bydd y cynefin yn cael ei ddileu.

## Dyddiad sefydlu

Rhaid i chi nodi dyddiad sefydlu pob un o’r cynefinoedd rydych wedi’u hychwanegu.  Os sefydlwyd y cynefin cyn 01/01/2022 ac nid ydych yn gwybod pa flwyddyn, dylech ddefnyddio 01/01/1901.  Ni allwch nodi dyddiad cyn 01/01/1901 nac ar ôl dyddiad heddiw.



Os ydych chi'n ychwanegu cynefin dros dro, ni fyddwch yn gallu nodi dyddiad cyn 01/01/2026 neu ar ôl 31/12/2026. Os cafodd y cynefin dros dro ei sefydlu cyn 01/01/2026, dylech ddefnyddio 01/01/2026. Os nad yw'r cynefin wedi'i sefydlu eto, dylech ddefnyddio diwrnod cyntaf y mis rydych chi'n bwriadu ei sefydlu.




**Golygu Cynefin.**

Gallwch newid categori y cynefin trwy glicio ar y botwm 'Golygu.'




Yna bydd gennych yr opsiwn '**Newidiwch y categori**'.



Ar ôl i chi ddewis yr opsiwn hwn, byddwch yn gallu dewis y categori cynefin yr hoffech ei ychwanegu:




Ar ôl i chi ddewis 'parhau', bydd y cynefin ar y parsel cae yn cael ei ddiweddaru.




## Newid arwynebedd neu siâp cynefin

Pan fyddwch yn golygu cynefin, gallwch ddileu rhan o'r cynefin a/neu newid ei arwynebedd neu newid ei siâp.




Bydd '**Lluniadu'r Arwynebedd**' yn eich galluogi i ychwanegu at arwynebedd y cynefin trwy dynnu amlinell polygon ar y map. Gallwch ddefnyddio'r erfyn i ychwanegu nifer o ddarnau o gynefin i gyd yr un pryd.

Os byddwch yn tynnu amlinell y polygon y tu allan i'r parsel, caiff ei docio at ffin y parsel. Caiff yr 'Arwynebedd wedi'i luniadu' ei ddiweddaru i ddangos arwynebedd newydd y cynefin.







Bydd y botwm '**Dewis**' yn eich galluogi i ddewis y cynefin ar y map a'i olygu drwy glicio ar y ffin a'i llusgo er mwyn newid y siâp.

Wrth olygu cynefin, ni chaiff orgyffwrdd â darn sy'n bod eisoes o gynefin parhaol o fath neu gategori gwahanol.  Gofynnir i chi a ydych chi am iddo gymryd lle'r cynefin presennol.




1. Os byddwch yn clicio ‘**Ydy**’ yna bydd y cynefin presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio **‘Nac ydy**’ bydd yr ardal yn cael ei thocio at ffin y cynefin presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad’**, caiff yr ardal sydd wedi’i lluniadu ei dileu.

Caiff y cynefin parhaol sy'n bod eisoes ei ddileu os bydd cynefin arall yn gorgyffwrdd yn llwyr ag ef. Bydd ffin y darn presennol o gynefin sy'n cael ei orgyffwrdd yn troi'n goch. Ni fyddwch yn gallu ei olygu, ei ddileu na'i adfer tra bydd y cynefin newydd yn gorgyffwrdd ag ef.



Ni fyddwch yn gallu ychwanegu unrhyw gynefin dros bwll dŵr heblaw am bwll o gategori Pwll Bywyd Gwyllt Parhaol.  Gofynnir i chi a hoffech docio’r cynefin at y nodwedd ddŵr neu daflu'r lluniad.




Er mwyn dileu rhan o gynefin yn unig, gallwch glicio ar y botwm ‘**Golygu**’ a defnyddio'r erfyn ‘**Dileu yr arwynebedd**’ a fydd yn eich galluogi i luniadu'r arwynebedd rydych am ei ddileu.




Tynnwch bolygon o amgylch y darn rydych am ei ddileu.  Os caiff y polygon ei dynnu y tu allan i'r parsel, caiff ei docio at y ffin.

Ar ôl i chi ddileu'r darn, dangosir yr ‘**Arwynebedd**’ newydd ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.



## Dileu Cynefin.

Er mwyn dileu darn cyfan o gynefin, bydd angen i chi ddewis y nodwedd ac yna glicio ar yr eicon ‘+’ icon neu ei glicio ar y map er mwyn gweld y botwm ‘Dilëwch’ ar y bar ar ochr chwith y sgrin.




Pan fyddwch yn dileu cynefin, bydd yn ymddangos ar y map gydag amlinell goch. Byddwch yn dal yn gallu gweld y cynefin parhaol rydych wedi’i ddileu yn y bar ar y chwith ond ni fydd wedi’i gynnwys mewn unrhyw gyfanswm.




Gallwch glicio ar y botwm ‘**Adfer’** er mwyn cadw’r cynefin os byddwch yn penderfynu nad ydych am ei ddileu.  Ni fyddwch yn gallu ei adfer os yw'r ardal wedi'i gorgyffwrdd gan gynefin.



## Tab Canopi coed

Bydd y tab canopi Coed yn dangos canopïau coed unigol a grwpiau o ganopïau coed i chi ar y parsel yn ôl math.

Dangosir canopïau coed unigol a grwpiau o ganopïau coed yn y bar ar ochr chwith y sgrin. Er mwyn gweld manylion, cliciwch ar y botwm ‘**Dangoswch y cyfan**’ neu'r eicon ‘**v**’.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm, fe welwch y cyfeirnod unigryw penodedig, e.e. T0001, wrth ganopi pob coeden unigol neu grŵp o ganopïau coed, y math o ganopi coed a'r maint. Dangosir maint canopi grwpiau o goed mewn hectarau. Dangosir maint nominal ar gyfer canopïau coed unigol. Er mwyn cuddio'r manylion, cliciwch ar y botwm ‘**Cuddiwch y cyfan**’ neu'r eicon ‘**^**’.

Dangosir map o ganopïau coed hefyd. Dangosir canopïau grwpiau o goed coed fel llinellau gwyrdd lletraws a dangosir canopïau coed unigol fel cylchoedd gwyrdd sy'n amrywio o ran maint yn ôl maint y canopi.

Gellir troi haenau map ‘ymlaen’ ac ‘i ffwrdd’ gan ddefnyddio'r botwm ‘**Gweld Opsiynau**’ ac mae botymau chwyddo ar gael. Bydd haenau'r canopïau coed ‘ymlaen’ yn ddiofyn, a bydd unrhyw haenau a oedd wedi'u troi ‘ymlaen’ yn y Crynodeb neu'r tab Cynefin yn aros ‘ymlaen’ hefyd. Bydd allwedd yn dangos pa haenau sydd wedi'u troi ‘ymlaen’ ar hyn o bryd.

Os byddwch yn dewis canopi coed ar y bar ar ochr chwith y sgrin neu'n hofran drosto, caiff ffin y canopi coed perthnasol ei huwcholeuo mewn gwyn.

Os byddwch yn clicio ar ganopi coed ar y map, caiff y ffin ei huwcholeuo mewn gwyn . Bydd manylion y canopi ar ochr chwith y sgrin yn ehangu er mwyn dangos botymau ychwanegol.



**Ychwanegu canopi coed newydd.**

Cliciwch ar y botwm '**Ychwanegu coed**' er mwyn ychwanegu canopi coed newydd.




Gofynnir i chi beth rydych am ei wneud:

1. Ychwanegu ardaloedd penodol o ganopi coeden unigol neu grŵp
2. Llenwi bylchau rhwng canopi coed presennol
3. Llenwi'r parsel cyfan




Dewiswch o'r rhestr o fathau o ganopi coed. Os byddwch yn ychwanegu gwaith plannu newydd, gallwch dicio'r blwch gwaith plannu newydd a nodi dyddiad ei sefydlu.



Os ydych yn ychwanegu gwaith plannu newydd, gofynnir ichi nodi dyddiad ei sefydlu.



**Ai plannu newydd yw hyn? (Dewisol)**

Mae plannu newydd yn cael ei ddiffinio fel coed a blannwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
Lle mae plannu newydd dylid cynnwys maint llawn yr ardal yn hytrach na choed unigol.

- [x] Gwaith plannu newydd yw hwn

Rhowch y dyddiad sefydlu
Os sefydlwyd y canopi coed cyn 01/01/2022 ac nad ydych yn gwybod pa flwyddyn, dylech ddefnyddio 01/01/1901

dd/mm/bbbb

Parhau Canslo

Gofynnir i chi a yw’n goeden unigol neu’n grŵp o goed?



Ychwanegu canopi coed/plannu

**A yw hon yn goeden unigol neu grŵp o goed?**

- Coeden unigol
  Mae coeden unigol yn un goeden neu goeden lluosog lle mae'r canopi yn cyffwrdd, ac mae cyfanswm arwynebedd y canopi yn llai na 0.01hectar
- Grŵp o goed
  Mae grŵp o goed yn goetiroedd sefydledig neu ardaloedd o ganopi coed sy'n hafal i neu'n fwy na 0.01 hectar (100m$^2$) o faint. Gall hyn gynnwys ardaloedd cyfyngedig o fannau agored o fewn yr ardal goetir. Lle mae plannu newydd dylid cynnwys maint llawn yr ardal yn hytrach na choed unigol.

Parhau Canslo

## Ychwanegu coeden unigol

Os byddwch yn ychwanegu coeden unigol, bydd angen i chi ddewis maint y canopi.



Ychwanegu canopi coed/plannu

**Dewiswch faint y canopi**

- Bach Iawn (llai na 7 m2)
- Bach (7 m2 i 19 m2)
- Canolig (19 m2 i 38 m2)
- Mawr (38 m2 i 63 m2)
- Mawr Iawn (63 m2 i 100 m2)

Parhau Canslo

Yna, gallwch glicio ar y map i roi pwynt ar leoliad y goeden unigol.




Nid oes modd gosod coeden unigol lle mae canopi coed presennol.




Ar ôl ychwanegu'r goeden, bydd y cyfeirnod ‘T’ yn cael ei ychwanegu at y bar ar y chwith.

## Ychwanegu ardaloedd penodol o ganopi coed unigol neu grŵp

Os byddwch yn ychwanegu grŵp o goed, gallwch dynnu polygon er mwyn dangos arwynebedd y canopi ar y map.

Dangosir ‘**Arwynebedd wedi'i luniadu**’ y canopi coed ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.




Os bydd yr arwynebedd wedi'i luniadu yn llai na 0.01 ha, caiff y grŵp o ganopïau coed ei droi'n ganopi coed unigol a bydd y siâp yn newid i gylch.




Wrth ychwanegu grŵp o goed, ni all y canopi coed orgyffwrdd â chanopi coed presennol. Os bydd yn gorgyffwrdd â chanopi grŵp o goed, gofynnir i chi a ydych am iddo gymryd lle'r canopi coed presennol.

Os byddwch yn clicio ar ‘**Ydy**’, yna bydd y canopi coed presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

Os byddwch yn clicio ar ‘**Nac ydy**’ caiff y canopi newydd ei docio at ffin y canopi coed presennol.

Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad**’, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.






Os bydd yn gorgyffwrdd â chanopi coeden unigol, caiff canopi’r goeden unigol ei ddileu a bydd yr arwynebedd wedi'i luniadu yn cymryd ei le.  Nid oes modd ei adfer tra bydd grŵp o ganopïau coed yn gorgyffwrdd ag ef.




Os bydd y grŵp o ganopïau coed newydd yn cymryd lle grŵp o ganopïau coed presennol yn llwyr, caiff yr arwynebedd presennol ei ddileu.  Nid oes modd ei adfer tra bydd grŵp arall o ganopïau coed yn gorgyffwrdd ag ef.




## Llenwi bylchau rhwng canopïau coed presennol

Bydd hyn yn caniatáu ichi ychwanegu canopi coed ym mhob rhan o'r parsel lle nad oes grwpiau o ganopi coed neu gynefin ar hyn o bryd.  Bydd y weithred hon yn rhoi grŵp o goed yn lle unrhyw goed unigol.

Bydd y cyfeirnod ‘T’ a’r arwynebedd yn cael eu nodi wrth bob canopi coed.  Os oes bylchau sy’n llai na 100m2, byddant yn cael eu llenwi gan goed unigol.




Os nad oes bylchau i’w llenwi byddwch yn gweld neges gwall.



## Llenwi parsel yn llawn

Bydd hyn yn ychwanegu canopi coed i'r parsel cyfan gan gymryd lle unrhyw ganopi coed sydd yno’n barod ond ni fydd yn cymryd lle unrhyw gynefin.

Wrth ddefnyddio'r opsiwn llenwi parsel cyfan ar barsel gwag, gofynnir i chi ddewis y math o ganopi coed:




Ar ôl i chi ddewis y canopi coed – bydd y parsel yn cael ei lenwi a chaiff unrhyw ganopïau coed unigol a oedd yno eisoes eu dileu:




Mae'r parsel isod wedi'i orchuddio gan gynefin felly fe welwch y gwall canlynol wrth ichi geisio llenwi'r parsel cyfan:




## Golygu canopi coed

Er mwyn golygu canopi coed, cliciwch ar y botwm '**Golygu**'.




## Newid mathau o goed

Gallwch newid y math o ganopi coed drwy glicio ar '**Newid y math**'.




Ar gyfer canopïau coed, gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm '**Diweddaru mwy nag un coeden**' i ddiweddaru mathau mwy nag un canopi coed yn y parsel ar yr un pryd.



Gofynnir i chi a ydych am ei ddiweddaru ‘**mwy nag un canopi o goed’** neu ‘**Dileu mwy nag un canopi coed’**.




Os byddwch yn clicio ar ‘**Diweddaru mwy nag un coeden**’, gofynnir ichi a ydych am ddiweddaru canopïau coed unigol neu grŵp o ganopïau coed.




Ar ôl i chi ddewis, gallwch dicio'r blwch wrth ochr y canopïau rydych am eu newid neu eu dewis ar y map.  Neu, er mwyn diweddaru pob grŵp o ganopïau coed neu ganopïau coed unigol o fath penodol, gallwch dicio'r blwch wrth ochr y math o goeden unigol neu'r math o goed.

**Rhaid** pennu math pob grŵp anhysbys o goed cyn y gellir rhoi statws '**Wedi'i adolygu**' i barsel.




Ar ôl i chi ddewis "Dileu nifer o ganopïau coed", gallwch dicio'r blwch wrth ochr y canopïau rydych am eu newid neu eu dewis ar y map. Neu, er mwyn diweddaru pob grŵp o ganopïau coed neu ganopïau coed unigol o fath penodol, gallwch dicio'r blwch wrth ochr y math o goeden unigol neu'r math o goed. Os byddwch yn clicio ar 'Barhau', gofynnir ichi a ydych am barhau. Os ydych yn clicio ar barhau, caiff y canopïau coed eu dileu.




## Newid arwynebedd neu siâp ganopi coed

Gallwch newid arwynebedd neu siâp grŵp o ganopïau coed drwy glicio ar y botwm '**Lluniadu'r Arwynebedd**', '**Dileu yr arwynebedd**' neu '**Dewis**'.



Bydd ‘**Lluniadu’r Arwynebedd**’ yn eich galluogi i ychwanegu at arwynebedd y grŵp o ganopïau coed presennol drwy dynnu polygon  ar y map.  Ni chewch ddefnyddio’r erfyn i ychwanegu sawl grŵp ar unwaith; bydd angen i’r darn newydd sydd wedi’i luniadu orgyffwrdd â canopi o goed fel ei fod yn creu un darn.




Os caiff y polygon ei dynnu y tu allan i'r parsel, caiff ei docio at ffin y parsel.  Caiff yr ’**Arwynebedd wedi'i luniadu**’ ei ddiweddaru i ddangos arwynebedd newydd y grŵp o ganopïau coed.




Bydd y botwm ‘**Dewis**’ yn eich galluogi i ddewis y grŵp o ganopïau coed ar y map a'i olygu drwy glicio ar y ffin a'i llusgo er mwyn newid y siâp.




Wrth olygu grŵp o ganopïau coed, ni allwch orgyffwrdd â grŵp o ganopïau coed presennol sydd o fath gwahanol neu sy'n perthyn i gategori gwahanol. Gofynnir i chi a ydych am ei ddileu a rhoi grŵp o ganopïau coed newydd yn ei le.

1. Os byddwch yn clicio ar '**Ydy**', yna bydd y canopi coed presennol yn newid i adlewyrchu'r yr hyn yr ydych wedi'i luniadu.

2. Os byddwch yn clicio ar '**Nac ydy**' caiff yr ardal newydd ei thocio at ffin y canopi coed presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar '**Gwaredu lluniad**', caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.



Caiff canopi coed presennol ei ddileu os bydd ei olygu yn arwain at ei orgyffwrdd yn llwyr. Caiff unrhyw goed unigol eu dileu a’u dangos â ffin goch. Ni fyddwch yn gallu eu hadfer tra bod y canopi coed newydd yn gorgyffwrdd â nhw.




Dangosir yr ‘**Arwynebedd wedi'i luniadu**’ newydd ar y bar ar y chwith mewn hectarau.

Gofynnir i chi nodi'r dyddiad sefydlu ar gyfer y newid ym maint canopi’r coed.

Ar ôl i chi gwblhau'r gwaith golygu, gallwch glicio ar y botwm ‘**Parhau**’.




Os bydd angen i chi newid arwynebedd canopi’r coed unigol, bydd angen i chi glicio ar y botwm ‘**Golygu**’ a ‘**Newidiwch y maint**’.



### Canopïau coed anhysbys

Os oes canopi coed heb gategori yn y parsel, bydd neges yn y dudalen grynodeb yn dweud bod angen iddyn nhw roi categori iddo cyn y gellir ei farcio fel parsel ‘wedi’i adolygu’.




### Dileu ganopi coed

Er mwyn dileu canopi coed cyfan, bydd angen i chi ddewis y nodwedd ac yna glicio ar yr eicon ‘+’ icon neu glicio arno ar y map i gael gweld y botwm ‘**Dilëwch**’ ar y bar ar ochr chwith y sgrin.






Os byddwch yn dileu canopi coed sy'n bod eisoes, caiff ei ddangos ar y map mewn amlinell goch. Byddwch yn dal yn gallu gweld canopi'r coed rydych wedi'i ddileu yn y bar ar y chwith ond ni fydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw gyfanswm.




Gallwch glicio ar y botwm '**Adfer'** er mwyn cadw canopi'r coed os byddwch yn penderfynu nad ydych am ei ddileu.

Er mwyn dileu rhan o grŵp o ganopïau coed yn unig, gallwch glicio ar y botwm '**Golygu'** a defnyddio'r erfyn '**Dileu yr arwynebedd**' a fydd yn eich galluogi i luniadu'r arwynebedd rydych am ei ddileu. Nid yw'r erfyn hwn ar gael ar gyfer canopïau coed unigol.




Tynnwch bolygon o amgylch y darn rydych am ei ddileu. Os caiff y polygon ei dynnu y tu allan i'r parsel, caiff ei docio at y ffin.

Ar ôl i chi ei ddileu, dangosir yr '**Arwynebedd wedi'i luniadu**' newydd ar y bar ar ochr chwith y sgrin mewn hectarau.







## Rheolau mapio

### Gorgyffwrdd â chynefin presennol

Wrth ychwanegu neu olygu cynefin newydd, ni chaiff orgyffwrdd â chynefin sydd â chategori gwahanol. Gofynnir i chi a ydych am iddo gymryd lle'r cynefin presennol.






1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Ydy**’, yna bydd ffiniau’r cynefin yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Nac ydy**’ caiff yr ardal newydd ei thocio at ffin y cynefin presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad**’, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

Os yw'r cynefin newydd yn disodli cynefin presennol yn llwyr, bydd y cynefin presennol yn cael ei ddileu.  Ni fydd modd ei adfer tra bod cynefin arall yn gorgyffwrdd ag ef.




## Cynefin dros ganopi coed sy’n  0.1ha neu fwy

Os ydych yn lluniadu neu'n golygu cynefin sy'n gorgyffwrdd â chanopi coed sy'n  0.1 ha neu fwy o faint, gofynnir i chi a yw'r cynefin yn cymryd lle’r canopi coed.







1. Os byddwch yn clicio ar '**Ydy**', yna bydd ffiniau'r cynefin yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio ar '**Nac ydy**' caiff yr ardal newydd ei thocio at ffin y cynefin presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar '**Gwaredu lluniad**', caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

**Gorgyffwrdd â chanopi coeden sy'n bodoli eisoes.**

Wrth ychwanegu neu olygu grŵp o goed, ni chaiff canopi coeden orgyffwrdd â chanopi coeden sy'n bodoli eisoes o fath gwahanol. Os ydych chi'n gorgyffwrdd â chanopi grŵp o goed, gofynnir i chi a ydych am iddo gymryd lle canopi'r goeden bresennol.







1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Ydy**’, yna bydd ffiniau canopi’r coed presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Nac ydy**’ caiff yr ardal newydd ei thocio at ffin canopi’r coed presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad**’, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

Os ydych chi'n lluniadu canopi coed i orgyffwrdd â chanopi coeden unigol, bydd canopi’r goeden unigol yn cael ei ddileu a bydd y canopi gafodd ei luniadu yn cymryd ei le.  Ni fydd modd ei adfer tra bod canopi grŵp o goed yn gorgyffwrdd ag e.




Os yw canopi grŵp newydd o goed yn cymryd lle canopi grŵp o goed sy'n bodoli eisoes yn llwyr, caiff yr ardal bresennol ei dileu.  Ni fydd modd ei hadfer tra bod canopi’r grŵp o goed yn gorgyffwrdd ag ef.







## Canopi coed yn 0.1ha neu fwy dros gynefin

Os ydych chi'n lluniadu neu'n golygu canopi coed sy'n 0.1ha neu fwy ac yn gorgyffwrdd â chynefin, gofynnir i chi a yw'r canopi coed yn cymryd lle’r cynefin







1. Os byddwch yn clicio ar '**Ydy**', yna bydd ffiniau'r cynefin yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd.

2. Os byddwch yn clicio ar '**Nac ydy**' caiff yr ardal newydd ei thocio at ffin y cynefin presennol.

3. Os byddwch yn clicio ar '**Gwaredu lluniad**', caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

**Nodweddion dŵr – afonydd a nentydd.**

Nid ydych yn cael lluniadu neu olygu cynefin sy'n gorgyffwrdd ag afon neu nant. Gofynnir i chi a ydych am docio'r siâp a luniwyd at y nodwedd ddŵr.




1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Ydw**’, caiff y cynefin ei thocio at yr afon neu’r nant.

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad’**, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

## Nodweddion Parhaol a wnaed gan Ddyn

Ni fyddwch yn cael lluniadu cynefin dros nodwedd barhaol a wnaed gan ddyn.  Gofynnir i chi a ydych am docio’r siâp a luniwyd at y nodwedd a wnaed gan ddyn.






1. Os byddwch yn clicio ar ‘**Parhau**’, caiff y cynefin ei thocio at ffin y nodwedd barhaol a wnaed gan ddyn

2. Os byddwch yn clicio ar ‘**Gwaredu lluniad**’, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

3. Os ydych chi’n credu bod y nodwedd barhaol yn anghywir, bydd angen llenwi Rheoli fy Nhir i newid y nodwedd cyn y cewch chi newid y cynefin.

**Pyllau bywyd gwyllt parhaol**

Nid yw'n bosibl newid categori pwll bywyd gwyllt parhaol cyhoeddedig gan ei fod yn seiliedig ar ddata’r nodwedd ddŵr sydd gennym.




Os byddwch yn ceisio lleihau ei arwynebedd, bydd neges gwall yn ymddangos i gadarnhau bod yn rhaid i'r pwll orchuddio'n llawn y nodwedd barhaol y mae wedi’i luniadu drosto.







Ni allwch estyn na lluniadu pwll bywyd gwyllt parhaol sy’n fwy na 1 ha o faint.






Ni chaiff cynefin arall neu ganopi grŵp o goed dros 0.1 ha o faint orgyffwrdd â phwll bywyd gwyllt parhaol . Gofynnir i chi a ydych am docio'r siâp gafodd ei luniadu at y nodwedd ddŵr.







1. Os byddwch yn clicio ar '**Ydw**', yna caiff y cynefin neu ganopi'r coed ei docio at ffin y pwll.

2. Os byddwch yn clicio ar '**Gwaredu lluniad**', caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.







Yn ôl i'r cynnwys

## Datganiad perthi/gwrychoedd ar gyfer y gofyniad 10% o gynefin

Os ydych eisoes wedi bodloni'r gofyniad 10% o gynefin o'r datganiad rydych chi wedi'i wneud ar gyfer cynefin a choetir llydanddail ar gyfer eich fferm, nid oes angen i chi ddatgan unrhyw berthi/gwrychoedd.

Os ydych yn dymuno defnyddio perthi/gwrychoedd i fodloni'r gofyniad cynefin o 10%, bydd angen i chi ddatgan:

- unrhyw berthi/gwrychoedd sy'n bodloni'r gofyniad cyflwr da a/neu
- unrhyw berthi/gwrychoedd newydd a grëwyd drwy gynllun Llywodraeth Cymru ers 1 Ebrill 2022.

**Nodwch**: Isafswm hyd y berth/gwrych y gallwch ei ddatgan ar gyfer naill ai un ochr neu'r ddwy ochr yw 20 metr.

Ar gyfer ffiniau mewnol: Os yw'n berth/gwrych mewnol rhwng eich parseli eich hun, byddai hyn yn cael ei ystyried fel bod gennych 50% o reolaeth lwyr dros bob parsel gan arwain at 100% i gyd.  Bydd angen i chi ddatgan hyd perthi/gwrychoedd cymwys mewn metrau.

Ar gyfer ffiniau allanol: Bydd angen i chi gadarnhau a oes gennych reolaeth lwyr dros 100% o'r berth/gwrych (y ddwy ochr) neu dim ond 50% (un ochr).  Bydd angen i chi ddatgan hyd perthi/gwrychoedd cymwys mewn metrau.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, byddwn yn cyfrifo arwynebedd cynrychioliadol i gyfrannu tuag at y gofyniad o 10% o gynefin.

## Arwynebedd Tir wedi'i Wella

Bydd unrhyw Dir wedi'i Wella sy'n derbyn mewnbynnau yn destun profion pridd o dan UA1: Iechyd Pridd.

Mae tir wedi'i wella yn cael ei ystyried yn dir amaethyddol sydd wedi derbyn neu a allai dderbyn mewnbynnau (naturiol ac artiffisial) neu galch o'r blaen.  Dyma'r holl dir nad yw wedi’i ddosbarthu fel cynefin o dan UA5: Cynnal Cynefinoedd, arwynebedd o goetir ac arwynebedd o nodweddion parhaol anghymwys ar gyfer SFS - yr Haen Gyffredinol.

Y cyfrifiad ar gyfer hyn yw cyfanswm maint y cae, minws unrhyw gynefin ac arwynebedd o goetir ac arwynebedd o nodweddion parhaol anghymwys ar gyfer SFS - yr Haen Gyffredinol.

Os oes gennych dir wedi'i wella nad oes mewnbynnau wedi'u rhoi arno ers 1 Ebrill 2022, a/neu na fydd yn derbyn mewnbynnau naturiol nac artiffisial a/neu galch o fewn blwyddyn y cynllun.  Rhaid i chi dicio i gadarnhau os **nad** yw'r arwynebedd hwn **wedi derbyn** mewnbynnau (naturiol ac artiffisial) a/neu galch o'r blaen.

**Pwysig** – Ni fydd arwynebedd y Tir wedi'i Wella yn cael ei ddangos nes eich bod yn agor yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer y cae.

**Newid tir sydd ag angen rhif cae newydd**

Rhaid gwneud cais am rif cae newydd yn 'Rheoli fy Nhir' ar RPW Ar-lein.

Bydd angen rhif cae newydd ar gyfer caeau sy'n perthyn i un o'r categorïau isod:

- caeau sydd heb eu cofrestru o'r blaen ar gyfer IACS
- caeau sydd wedi'u rhannu'n barhaol
- caeau sydd wedi'u cyfuno'n barhaol
- caeau sydd â ffin newydd.

Bydd '*Rheoli fy Nhir*' yn rhoi rhifau caeau ichi ar gyfer y newidiadau.

Yn ôl i'r cynnwys

## Cyfrifo 10% o Gynefin

Bydd y manylion yn cael eu dangos dim ond ar ôl i chi hawlio SFS - Haen Gyffredinol ar barseli unigol ar eich Adran Data Caeau. Mae'r ffigurau yn y crynodeb yn seiliedig ar y manylion yn eich Adolygiad Sylfaen o Gynefinoedd. Gan nad ydym wedi dilysu eich cais eto, nid ydynt yn cadarnhau eich bod wedi bodloni gofynion y cynllun i fod â 10% o'ch fferm yn gynefin.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio bod yr holl wybodaeth rydych chi wedi'i datgan yn gywir, a'ch bod wedi sicrhau bod gennych ddigon o ardaloedd o Gynefin, Coetir Llydanddail, Perthi/Gwrychoedd mewn cyflwr da a/neu Perthi/Gwrychoedd a grëwyd o dan Gynlluniau Llywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2022 a/neu Gynefin Dros Dro lle bo angen i fodloni gofynion y cynllun i fod â 10% o’ch fferm yn gynefin

**Noder os gwelwch yn dda:** Ni fydd arwynebedd tir comin a thir cydbori yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r 10% o gynefin ar eich fferm.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddatganwyd, bydd y system yn rhoi arwydd a ydych wedi bodloni gofynion y cynllun o gael 10% o gynefin neu ddim, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Cyfrifo 10% o Gynefin

Yn ôl | Safio | Nesaf

Bydd y manylion yn cael eu dangos dim ond ar ôl i chi hawlio SFS - Haen Gyffredinol ar barseli unigol ar eich Adran Data Caeau. Mae'r ffigurau yn y crynodeb yn seiliedig ar y manylion yn eich Adolygiad Sylfaen o Gynefinoedd. Gan nad ydym wedi dilysu eich cais eto, nid ydynt yn cadarnhau eich bod wedi bodloni gofynion y cynllun i fod â 10% o'ch fferm yn gynefin.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio bod yr holl wybodaeth rydych chi wedi'i datgan yn gywir, a'ch bod wedi sicrhau bod gennych ddigon o ardaloedd o Gynefin, Coetir Llydanddail, Perthi/Gwrychoedd mewn cyflwr da a/neu Perthi/Gwrychoedd a grëwyd o dan Gynlluniau Llywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2022 a/neu Gynefin Dros Dro lle bo angen i fodloni gofynion y cynllun i fod â 10% o’ch fferm yn gynefin.

**Noder os gwelwch yn dda:** Ni fydd arwynebedd tir comin a thir cybori yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r 10% o gynefin ar eich fferm.

Bydd yr wybodaeth yn diweddaru wrth i chi gwblhau'r cais.

**Cyfanswm Arwynebedd Fferm Gyfan a ddefnyddir i gyfrifo'r 10% o gynefin mewn ha** [redacted]

| | Cyfanswm yr Arwynebedd | Canran o Gyfanswm Arwynebedd y Fferm Gyfan |
|---|---|---|
| Cyfanswm Arwynebedd y Cynefin Parhaol | [redacted] | [redacted] |
| Cyfanswm Arwynebedd y Coetir Llydanddail sy’n fwy neu'n hafal i 0.1ha | | |
| Cyfanswm Hyd y Perthi/Gwrychoedd a Ddatganwyd (wedi'i drosi'n arwynebedd) | | |
| Cyfanswm Arwynebedd y Cynefin Dros Dro | | |
| Cyfansymiau | | |

**Yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i datgan uchod, mae gofynion y cynllun i fod â 10% o’ch fferm yn gynefin wedi'u bodloni.**

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Os nad ydych wedi bodloni gofynion y cynllun i gael 10% o gynefin ar eich fferm, bydd y neges ganlynol yn cael ei harddangos fel y dangosir ar y sgrin lun isod:

*'Yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i datgan uchod, nid yw gofynion y cynllun i fod â 10% o'ch fferm yn gynefin wedi'u bodloni'*

*Bydd angen i chi ddatgan cynefin ychwanegol cyn gallu cyflwyno eich cais.*'

**Yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i datgan uchod, nid yw gofynion y cynllun i fod â 10% o'ch fferm yn gynefin wedi'u bodloni.**

Bydd angen i chi ddatgan cynefin ychwanegol cyn gallu cyflwyno eich cais.

**Ni** fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais SAF nes eich bod wedi datgan cynefin ychwanegol.

Dangosir mesuriadau arwynebedd i ddau le degol, ond mae ein system yn eu dal i dri lle degol ac yna'n eu talgrynnu i ddau le degol.  O ganlyniad, pan ychwanegir sawl ardal lai, gall y cyfanswm cyffredinol fod yn wahanol i swm yr ardaloedd cynefin unigol a ddangosir yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

**Sylwer**: Os ydych wedi agor a darllen yr Adran Cyfrif 10% o Gynefin, bydd tic gwyrdd ar y ddewislen ar y chwith.  Ond os byddwch chi'n gadael y cais ac yna'n ei ailagor, bydd croes goch wrth Adran Cyfrif 10% o Gynefin ar y ddewislen ar y chwith.  Bydd angen i chi agor a darllen yr Adran cyn cyflwyno'ch cais.

Yn ôl i'r cynnwys

## SFS – yr Haen Gyffredinol – Arall

Rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr adran hon.

SFS - yr Haen Gyffredinol - Arall

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

### SFS - yr Haen Gyffredinol - Pwy sy'n Gymwys

Nid ydych wedi datgan 3ha o dir sy'n gymwys am SFS - tir Haen Cyffredinol heb gynnwys tir comin. Bydd angen i chi gadarnhau bod gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin neu ddangos eich bod yn bodloni'r 550 awr o Lafur Safonol.

Mae gennych lai na 3ha o dir cymwys heb gynnwys tir comin. Allwch chi ddangos bod gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin? * — Oes / Nac oes

A allwch chi ddangos eich bod wedi gweithio 550 awr ar eich fferm? * — Oes / Nac oes

### Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS

**Rhaid** i chi ateb y cwestiynau canlynol i ddangos a yw Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS a restrir isod yn berthnasol i chi.

#### UA7 - Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

A oes Safleoedd Dynodedig ar eich daliad? — Oes / Nac oes

(Mae Safleoedd Dynodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol a / neu RAMSAR) *

Drwy dicio'r blwch hwn, rydych yn cytuno y bydd eich penderfyniad i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn cael ei ystyried fel eich hysbysiad o fwriad i ymgymryd â gweithrediadau rheoli o fewn tir SSSI o dan eich rheolaeth yn unol â'r Cod Cyffredinol a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS. * ☐

#### UA8 - Rheoli Perthi/Gwrychoedd

Oes gennych berthi/gwrychoedd sydd o dan eich rheolaeth lwyr ar eich daliad ac sy'n berthnasol i UA8? * — Oes / Nac oes

#### UA11 - Yr Amgylchedd Hanesyddol

Oes gennych nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol ar eich daliad? — Oes / Nac oes

(Mae nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys Henebion Cofrestredig, Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol, Parciau a Gerddi Cofrestredig ac Adeiladau Fferm Traddodiadol) *

### Cyllido Dwbl

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu bod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae angen sicrwydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru bod trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

A ydych yn derbyn unrhyw gyllid arall gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Cynefin ac/neu Reoli Coetir? * — Ydym / Nac ydym

Rhowch fanylion am **unrhyw Gyllid Refeniw arall**, (gan gynnwys ffrydiau cyllido eraill Llywodraeth Cymru) gan unrhyw sefydliad i gefnogi'r Rheoli Cynefinoedd a/neu Goetiroedd. Rhaid ichi gynnwys manylion eitemau cyfalaf, swyddi a ariennir, symiau cyllid refeniw eraill a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth.

+ Ychwanegu Cyllid

| Math o Gyllid a Diben | Symiau cyllid a dderbyniwyd (gan gynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth) £ | % cost y swydd/ eitem gyfalaf | Ffynhonnell y cyllid | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dilëwch |

### Problemau heb eu datrys o ran data

Oes unrhyw broblemau gyda'r data ar y cais yma nad ydych wedi gallu eu datrys cyn cyflwyno? * — Oes / Nac oes

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 500 o nodau) *

0 / 500

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

**SFS – yr Haen Gyffredinol – Pwy sy'n Gymwys**

**Sylwer**: Dim ond os ydych wedi datgan llai na 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin ar gyfer yr SFS – Haen Gyffredinol y bydd yr adran Haen Gyffredinol yr SFS yn cael ei harddangos.

Os nad ydych wedi datgan 3ha o dir SFS cymwys ac eithrio Tir Comin. Bydd angen i chi gadarnhau a oes gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin neu ddangos eich bod yn bodloni'r 550 o oriau o Lafur Safonol.

Os oes gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin, rhaid i chi ateb 'Oes' i'r cwestiwn '*Mae gennych lai na 3ha o dir cymwys ac eithrio tir comin. Oes gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin?*'.

Os oes gennych lai na 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin, rhaid i chi ateb 'Na'.




Os ydych wedi ateb 'Na' i'r cwestiwn *'Mae gennych lai na 3ha o dir cymwys ac eithrio tir comin. Oes gennych o leiaf 3ha o dir cymwys gan gynnwys tir comin?*' bydd y cwestiwn canlynol '*Allwch chi ddangos eich bod wedi gweithio 550 awr ar eich fferm?*' yn cael ei arddangos fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Rhaid i chi nodi 'Gallaf' neu 'Na allaf' i'r cwestiwn hwn.




Os mai'r ateb yw 'Na', nid ydych yn bodloni'r gofynion cymhwysedd i hawlio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol. Os ydych am hawlio cynlluniau tir eraill, bydd angen i chi 'Adael' y cais hwn a dewis 'Dechrau Eto' a dewis 'Na' ar gyfer hawlio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol.

# Gweithredoedd Cyffredunol yr SFS

## UA7 – Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

Rhaid i chi ateb 'Oes' os oes gennych Safleoedd Dynodedig ar eich daliad. Fel arall, atebwch 'Na'.

**UA7 - Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig**

A oes Safleoedd Dynodedig ar eich daliad? ○ Oes ○ Nac oes

(Mae Safleoedd Dynodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol a / neu RAMSAR) *

Os oes gennych unrhyw dir sydd mewn Safle Dynodedig, bydd haen Safleoedd Dynodedig yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd neu Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dangos hyn.

Os ydych wedi ateb 'Oes' i '*A oes Safleoedd Dynodedig ar eich daliad?*' bydd angen i chi ticio i gadarnhau eich bod yn cytuno y bydd eich penderfyniad i ymuno â'r Cynllun Cynaliadwy (SFS) yn cael ei ystyried fel eich hysbysiad o fwriad i ymgymryd â gweithrediadau rheoli o fewn tir SSSI o dan eich rheolaeth yn unol â'r Cod Cyffredinol a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS – yr Haen Gyffredinol.

**UA7 - Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig**

A oes Safleoedd Dynodedig ar eich daliad? ◉ Oes ○ Nac oes

(Mae Safleoedd Dynodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol a / neu RAMSAR) *

Drwy dicio'r blwch hwn, rydych yn cytuno y bydd eich penderfyniad i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn cael ei ystyried fel eich hysbysiad o fwriad i ymgymryd â gweithrediadau rheoli o fewn tir SSSI o dan eich rheolaeth yn unol â'r Cod Cyffredinol a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS. * ☐

## UA8 – Rheoli Perthi / Gwrychoedd

Os oes gennych unrhyw berthi/gwrychoedd ar eich daliad y mae gennych reolaeth lwyr arnyn nhw ac sy'n berthnasol i UA8, dylech ateb 'Oes' i'r cwestiwn.

**UA8 - Rheoli Perthi/Gwrychoedd**

Oes gennych berthi/gwrychoedd sydd o dan eich rheolaeth lwyr ar eich daliad ac sy'n berthnasol i UA8? * ○ Oes ○ Nac oes

## UA11 – Yr Amgylchedd Hanesyddol

Rhaid i chi ateb 'Oes' os oes gennych nodweddion Amgylchedd Hanesyddol ar eich daliad. Fel arall, atebwch 'Na'.

Os oes gennych unrhyw Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol ar eich tir, bydd haen yr Amgylchedd Hanesyddol yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd neu Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dangos hyn.

(Mae nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys Henebion Cofrestredig, Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol, Parciau a Gerddi Cofrestredig ac Adeiladau Fferm Traddodiadol.)

**UA11 - Yr Amgylchedd Hanesyddol**

Oes gennych nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol ar eich daliad? ◯ Oes ◯ Nac oes

(Mae nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys Henebion Cofrestredig, Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol, Parciau a Gerddi Cofrestredig ac Adeiladau Fferm Traddodiadol) *

## Cyllido Dwbwl

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu bod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae angen sicrwydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru bod trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych yn derbyn unrhyw gyllid refeniw arall gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi’r cynefin ac/neu Reoli Coetir, rhaid i chi ateb 'Ydym' i'r cwestiwn, fel arall ateb 'Nac ydym'.

**Cyllido Dwbl**

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu bod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae angen sicrwydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru bod trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

A ydych yn derbyn unrhyw gyllid arall gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Cynefin ac/neu Reoli Coetir? * ◯ Ydym ◯ Nac ydym

Os mai 'Ydym' yw'r ateb i'r cwestiwn 'A ydych yn derbyn unrhyw gyllid arall gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Cynefin ac/neu Reoli Coetir?', rhaid i chi roi manylion unrhyw arian cyhoeddus arall rydych yn ei gael gan unrhyw sefydliad arall mewn perthynas â thaliad **refeniw** i gefnogi'r diben o warchod tir cynefin a/neu chynnal coetir gan gynnwys symiau’r cyllid, swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid yn y tabl a ddangosir yn y sgrinlun isod. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth.

**Pwysig:** Ystyr cyllid cyfalaf yw grant untro i brynu eitem neu eitemau ac ystyr arian **refeniw** yw taliad ar gyfer rheoli ardal am amser penodedig.

Os ydych yn derbyn cyllid arall gan fwy nag un sefydliad/ffynhonnell, gallwch ychwanegu rhes newydd trwy bwyso'r botwm '+ Ychwanegu cyllid'. Unwaith y bydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion y cyllid.

Dylid defnyddio'r botwm 'Dilëwch' dim ond os ydych chi am ddileu'r rhes.

**Noder**: Os ydych yn cael cyllid cyhoeddus mewn perthynas â thaliad refeniw i gefnogi’r diben o warchod tir cynefin a/neu cynnal coetir, yna caiff y taliad Cynnal Cynefin a/neu y taliad Cynnal Coetir ei addasu yn unol â hynny rhag ichi gael eich talu ddwywaith ar yr un darn o dir.




## Problemau heb eu datrys o ran data

Dylid gwneud unrhyw newidiadau i Gynefin neu Ganopi Coed yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, os oes problemau ynghylch ffiniau caeau/nodweddion parhaol, dylid datrys y rhain trwy gwblhau Rheoli Fy Nhir.

Os oes unrhyw broblem arall gyda'r data ar y cais hwn nad ydych wedi gallu ei datrys cyn ei gyflwyno, rhaid i chi ateb 'Ydw' i'r cwestiwn a ddangosir yn y sgrin lun isod.




Yn ôl i'r cynnwys

## Atodlen 6 – Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu

Os nad ydych yn hawlio Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP), ni fydd unrhyw gwestiynau yn yr adran hon ichi eu hateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

Os ydych wedi nodi eich bod am wneud cais am Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP), yn yr adran Hawlio a Hawliau a bod eich statws cyfreithiol ar gyfer eich busnes yn unig fasnachwr, ni fydd cwestiynau yn yr adran hon ichi fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os ydych wedi nodi eich bod am wneud cais am Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP) yn yr adran Hawlio a Hawliau, mae eich statws cyfreithiol ar gyfer eich busnes yn unrhyw beth heblaw unig fasnachwr ac mae gennych gontract a/neu Ddyfarniad Grant o dan y Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Grant Creu Coetir (WCG) a/neu'r Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir (SGWC). Bydd gofyn i chi gwblhau Atodlen 6 Cynefin Cymru - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu i roi sicrwydd bod gweithdrefnau llywodraethu a gwrth-dwyll rhesymol a digonol ar waith yn y busnesau sydd wedi derbyn cyllid.

Os oes mwy nag un person yn eich sefydliad â chyfrifoldeb penodol am reoli'r arian a ddefnyddir at ddibenion o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi'n organig neu fwy nag un person yn gyfrifol am oruchwylio'r person(au) a enwir, gallwch eu hychwanegu drwy bwyso'r botwm 'Ychwanegu Unigolyn'. Unwaith y bydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion yr unigolyn ychwanegol.

Dylid defnyddio'r botwm 'Dileu'r Unigolyn' dim ond os ydych chi am ddileu'r rhes.



ATODLEN 6 - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu

Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu bod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae angen sicrwydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru bod trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Ydych chi'n cael unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion a nodir yn Atodlen 1 eich Dyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig a/neu Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir? Os ydych, rhowch fanylion gan gynnwys symiau'r cyllid arall, y swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth. Gellir rhoi mwy o fanylion yn y tabl isod. * Ydym / Nac ydym

Rhowch enw'r personél yn eich sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb penodol dros reolaeth ariannol mewn perthynas â'r Dibenion.

Enw Cyntaf * | Enw(au) Canol | Cyfenw *

Swydd *

Dileu'r Unigolyn

+ Ychwanegu unigolyn

Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio'r personél a enwir uchod?

Enw Cyntaf * | Enw(au) Canol | Cyfenw *

Swydd *

Dileu'r Unigolyn

+ Ychwanegu unigolyn

Yr ydych yn datgan bod eich cyflogeion, eich swyddogion, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr a'ch aelodau bwrdd:

- pan fo'n berthnasol, yn deall yn llawn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â chwmnïau ac elusennau;
- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am faterion llywodraethu i ymgymryd â'u rolau mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- yn craffu'n briodol ar waith y rheini sydd â'r prif gyfrifoldeb dros eich rheolaeth ariannol, ac yn ei oruchwylio.

☐ Rwy'n cadarnhau'r datganiad uchod

Gadael | Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Gweld Map | Nesaf

Os mai 'Ydw' yw'r ateb i'r cwestiwn *'Ydych chi'n cael unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion?'*, **rhaid** i chi roi manylion unrhyw arian cyhoeddus arall rydych yn ei gael gan unrhyw sefydliad arall mewn perthynas â thaliad refeniw i gefnogi'r diben o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi'n organig gan gynnwys symiau'r cyllid, swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid yn y tabl a ddangosir yn y sgrinlun isod.  Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth.



Rhowch fanylion **unrhyw gyllid arall**, boed yn gyfalaf neu'n refeniw, (gan gynnwys ffrydiau cyllid Llywodraeth Cymru) oddi wrth unrhyw sefydliad i gefnogi'r Dibenion a nodir yn Atodlen 1 eich Dyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig a/neu Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir. Rhaid ichi gynnwys manylion eitemau cyfalaf, swyddi a ariennir, symiau cyllid arall a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth. *

+ Ychwanegu Cyllid

| Math o Gyllid a Diben | Symiau cyllid a dderbyniwyd (gan gynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth) £ | % cost y swydd/ eitem gyfalaf | Ffynhonnell y cyllid | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dilëwch |

☑ Rwy'n cadarnhau'r datganiad uchod

Os ydych yn derbyn cyllid arall gan fwy nag un sefydliad/ffynhonnell, gallwch ychwanegu rhes newydd trwy bwyso'r botwm '+ Ychwanegu cyllid'.  Unwaith y bydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion y cyllid.

Dylid defnyddio'r botwm 'Dilëwch' dim ond os ydych chi am ddileu'r rhes.

**Noder**: Os ydych yn cael cyllid cyhoeddus mewn perthynas â thaliad refeniw i gefnogi'r diben o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi'n organig, ni ddylech hawlio Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP) ar dir os ydych yn derbyn cyllid at yr un diben o unrhyw ffynhonnell arall. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel cyllido dwbl ar gyfer yr un darn o dir.

Os pennir eich bod yn derbyn cyllid o ffynhonnell arall ar gyfer warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi'n organig, gallai hyn olygu cosbau ariannol ac adennill y taliad y gwnaethoch ei hawlio ar gyfer Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP).

**Pwysig:** Ystyr cyllid cyfalaf yw grant untro i brynu eitem neu eitemau ac ystyr arian refeniw yw taliad ar gyfer rheoli ardal am amser penodedig.

Yn ôl i'r cynnwys

## Crynodeb

Nid yw'r sgrin 'Crynodeb' a ddangosir isod yn rhan o'ch cais.  At eich diben chi yn unig y mae, fel nodyn i'ch helpu i weld unrhyw gamgymeriadau neu a ydych wedi gadael rhywbeth allan.  Bydd yn dangos crynodeb o'ch SAF 2026 ac os cyflwynoch chi un, crynodeb o'ch SAF 2025 ichi gael eu cymharu.  Ni fyddwn yn gallu dangos manylion 2025 os nad oeddynt wedi'u prosesu'n llawn adeg codi'r data.

Os oes cynllun na chewch ei hawlio ar eich SAF 2025, fe welwch y llythrennau "Amh".

### Cynlluniau

Crynodeb Cynlluniau

Yn ôl | Safio | Nesaf

**Pwysig**: Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgroliwch i lawr os oes angen.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cais SAF 2026 yr ydych wedi'i gwblhau. Mae hefyd yn grynodeb o SAF 2025 i'ch helpu i gymharu'r ddwy flynedd a nodi unrhyw anghysonderau. Seilir gwybodaeth 2025 ar geisiadau sydd wedi'u cadarnhau. Felly, os na chafodd SAF 2025 neu gais am gynllun unigol ei gyflwyno neu os nad yw wedi'i gadarnhau eto, ni fydd gwybodaeth yn ymddangos.

**Er gwybodaeth yn unig mae'r Crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich cais yn gywir nac yn ffurfio rhan o'ch cais SAF 2026.**

Os oes cynllun na chewch ei hawlio ar eich SAF 2025, fe welwch y llythrennau "Amh".

Mesurir arwynebeddau mewn hectarau ac maen nhw ar gyfer tir yng Nghymru yn unig. Nid oes arwynebedd ar gyfer Tir Comin SFS 2026 gan fod y tir porthiant sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hawliau pori yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Gofalwch fod yr arwynebedd rydych yn ei hawlio o dan Gynlluniau Coetir yn cyfateb i'r arwynebedd yn eich contract a/neu ddyfarniad grant.

| Cynlluniau | 2026 (wedi'i ddatgan) | 2025 (wedi'i gadarnhau) |
|---|---|---|
| **Yr holl Dir SAF sydd wedi'i ddatgan** | | |
| Arwynebedd yr holl dir | [redacted] | |
| Nifer yr holl barseli tir | [redacted] | |
| **Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol** | **Wedi'i hawlio** | **Amh** |
| Arwynebedd Tir | [redacted] | Amh |
| Tir Comin | ✓ | Amh |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | Amh |
| **Tir wedi'i wella** | | |
| Nifer Parseli Tir wedi'i Wella | [redacted] | Amh |
| **Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026** | **Wedi'i hawlio** | **Amh** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| Troi'n Organig (OCS) - Cydymffurfio | Wedi Cydymffurfio | Amh |
| **Ffermio Organig - Cymorth (OFS)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Cynnal Creu Coetir (WCM)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir (WCP)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Taliad cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP) - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Yn ôl i'r cynnwys

## Cnydau

Mae’r sgrin lun isod yn dangos arwynebedd pob cnwd rydych wedi’i ddatgan a’r arwynebedd rydych wedi hawlio SFS – yr Haen Gyffredinol arno. Nid yw’n dangos cyfansymiau contractau gan nad ydych yn eu hawlio yn erbyn cnydau unigol ar y SAF.


Crynodeb Cnydau

Yn ôl | Safio | Nesaf

**Pwysig**: Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgroliwch i lawr os oes angen.

**Rydych wedi datgan / hawlio'r arwynebeddau canlynol. Nid yw hynny'n cadarnhau bod y cnydau'n gymwys ar gyfer y cynlluniau rydych yn eu hawlio.**

Mesurir arwynebeddau mewn hectarau ac maen nhw ar gyfer tir yng Nghymru yn unig.

| Cnydau | Y Cyfanswm wedi'i ddatgan | SFS - yr Haen Gyffredinol wedi'i hawlio | Ail Gnydau |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| Adeiladau a Buarthau (ZZ89) | | | |
| Afonydd a Nentydd (ZZ31) | | | |
| Coetir - llydanddail - grŵp (ZZ11) | | | |
| Coetir - llydanddail - gwasgarog (YY15) | | | |
| Ffa maes - wedi'i hau yn y gwanwyn (BN4) | | | |
| Gwyndynnydd cymysg (gwyndynnydd amlrywogaeth neu lysieuol) (ML1) | | | |
| Haidd - wedi'i hau yn y gaeaf (BA4) | | | |
| Haidd - wedi'i hau yn y gwanwyn (BA5) | | | |
| Porfa parhaol - dros 5 mlynedd (GR2) | | | |
| Porfa wedi'i hau ar wyndwn (FA4) | | | |

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

[Yn ôl i’r cynnwys]

# Cyfanswm Maint y Darnau Cynefin

Dyma gyfanswm arwynebedd y cynefinoedd yn ôl categori ar draws y darnau tir rydych wedi hawlio **SFS - yr Haen Gyffredinol** arnynt.  Mae’r crynodeb hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddatganwyd ar eich Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Os ydych wedi hawlio'r parsel ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS ond heb gynnal yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, bydd yr wybodaeth yn cael ei harddangos o dan y 'Parsel heb ei adolygu' fel y dangosir ar y sgrin lun isod.  Ar adeg cyflwyno eich cais, mae angen i'r holl barseli a hawliwyd ar gyfer yr SFS - Haen Gyffredinol fod â statws 'Wedi ei adolygu'.

Dangosir mesuriadau arwynebedd i ddau le degol, ond mae ein system yn eu dal i dri lle degol ac yna'n eu talgrynnu i ddau le degol.  O ganlyniad, pan ychwanegir sawl ardal lai, gall y cyfanswm cyffredinol fod yn wahanol i swm yr ardaloedd cynefin unigol a ddangosir yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.




[Yn ôl i’r cynnwys]

# Cyfanswm Main y Darnau Coetir

Dyma gyfanswm arwynebedd y canopi coed yn ôl math sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha ar draws y parseli rydych wedi hawlio **SFS - yr Haen Gyffredinol** arnynt. Mae’r crynodeb hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddatganwyd ar eich Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Bydd yr arwynebedd o goetir llydanddail sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha yn cael eu hystyried fel cynefin ar gyfer y gofynion cynefin o 10%.

Os ydych wedi hawlio'r parsel ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS ond heb gynnal yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, bydd yr wybodaeth yn cael ei harddangos o dan y 'Parsel heb ei adolygu' fel y dangosir ar y sgrin lun isod. Ar adeg cyflwyno eich cais, mae angen i'r holl barseli a hawliwyd ar gyfer yr SFS - Haen Gyffredinol fod â statws 'Wedi ei adolygu'.

Dangosir mesuriadau arwynebedd i ddau le degol, ond mae ein system yn eu dal i dri lle degol ac yna'n eu talgrynnu i ddau le degol. O ganlyniad, pan ychwanegir sawl ardal lai, gall y cyfanswm cyffredinol fod yn wahanol i swm yr ardaloedd cynefin unigol a ddangosir yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.



Cyfanswm Maint y Darnau Coetir

< Yn ôl | Safio | Nesaf >

Dyma gyfanswm arwynebedd y canopi coed yn ôl math sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha ar draws y parseli rydych wedi hawlio **SFS - yr Haen Gyffredinol** arnynt. Mae’r crynodeb hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddatganwyd ar eich Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Bydd yr arwynebedd o goetir llydanddail sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha yn cael eu hystyried fel cynefin ar gyfer y gofynion cynefin o 10%.

## Parseli wedi'u hadolygu

| | |
|---|---|
| Nifer y parseli wedi'u hadolygu | [redacted] |
| Cyfanswm arwynebedd y parseli wedi'u hadolygu | [redacted] |
| **Arwynebedd y canopi coed sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha** | |
| **Math o ganopi coed** | **Arwynebedd** |
| Llydanddail | [redacted] |
| Conwydd | [redacted] |
| **Cyfanswm arwynebedd y canopi coed wedi’i gwtogi syn fwy na neu’n hafal i 0.1ha sydd wedi’u hadolygu** | [redacted] |

## Parseli heb eu hadolygu

| | |
|---|---|
| Nifer y parseli heb eu hadolygu | [redacted] |
| Cyfanswm arwynebedd parseli heb eu hadolygu | [redacted] |
| **Arwynebedd y canopi coed sy'n fwy na neu'n hafal i 0.1ha** | |
| **Math o ganopi coed** | **Arwynebedd** |
| Llydanddail | [redacted] |
| **Cyfanswm arwynebedd y canopi coed wedi’i gwtogi syn fwy na neu’n hafal i 0.1ha sydd heb eu hadolygu** | [redacted] |

Gadael | < Yn ôl | Safio | Nesaf >

Yn ôl i’r cynnwys

# Cyflwyno

## Gwallau a Gwybodaeth

Mae’r adran yn rhestru’r Negeseuon ‘Camgymeriadau’ a ‘Gwybodaeth’ ar eich SAF fel y dangosir yn y sgrin luniau isod.

**Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn y cewch gyflwyno’ch SAF.  Diben y negeseuon Gwybodaeth yw ’ch atgoffa am unrhyw gamau y mae gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno’ch SAF.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth penodol, cliciwch ar enw’r adran ar ochr chwith y sgrin.  Os oes gennych negeseuon Gwallau neu Wybodaeth nad ydyn nhw’n gysylltiedig ag adran benodol, byddan nhw’n ymddangos ar sgrin yr adran hon.

Bydd yr Adran 'Hawliad' bob amser yn cael ei harddangos gyda neges wybodaeth ar yr adran hon mewn perthynas â goblygiadau hawlio'r SFS – Haen Gyffredinol.




Ar ôl ichi gywiro’r Gwallau, bydd eich SAF yn barod i fynd.




Yn ôl i’r cynnwys

## Tystiolaeth Ddogfennol

Mae’r adran Tystiolaeth Ddogfennol yn rhestru’r dogfennau sy’n cael eu hystyried yn Dystiolaeth Ddogfennol neu’n Ddogfennau Ategol. **Darllenwch y rhestr yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn cyflwyno’r holl ddogfennau sy’n berthnasol i’ch cais. Gallem wrthod eich hawliad os na fyddwch wedi cyflwyno’r dogfennau perthnasol erbyn y dyddiad cau.** (Gweler *‘Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026: llyfryn rheolau ar gyfer Cynlluniau Coetir ac Organig wrth hawlio Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – yr Haen Gyffredinol’* am ragor o wybodaeth.)

**Sylwer**: Rhaid cyflwyno dogfennaeth ategol i gefnogi dileu neu ddiwygio ardaloedd cynefin erbyn **31 Rhagfyr 2026**. Mae hwn wedi'i ddiwygio o'r 15 Mai 2026 a restrir ar y sgrin. Os na dderbynnir y dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, gwrthodir dileu neu ddiwygio'r cynefin.

Ticiwch y blwch/blychau sy’n berthnasol i’ch cais wrth droed yr adran fel y dangosir yn y sgrin luniau isod.


Cyflwyno Tystiolaeth ddogfennol

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid i chi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl ddogfennaeth ategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol mewn perthynas â chymhwysedd 550 awr a thynnu neu ddiwygio cynefin ar haen gyfyngiad os yw'n berthnasol, erbyn **15 Mai 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Iddyn nhw allu cefnogi'ch cais, rhaid cyflwyno dogfennau i gefnogi **Ffermio Organig - Cymorth** erbyn 31 Rhagfyr 2026. Ni fydd modd eich talu nes bod y dystiolaeth yn cyrraedd. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2026, byddwn yn gwrthod eich cais.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Organig** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Gall methu bodloni telerau ac amodau'r Contract a/neu Ddyfarniad Grant arwain at ganslo eich Contract/Dyfarniad Grant a/neu adennill y taliadau sydd eisoes wedi cael eu talu ichi.

Os ydych am gyflwyno dogfennau drwy'r post, gofalwch fod y rheini hefyd yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiadau hyn. Rydym wedi rhestru'r dystiolaeth sy'n dderbyniol isod. (dim ond enghreifftiau ydyn nhw).

### Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol

**550 Oriau Llafur Safonol**

- Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol

**Neu**

- Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achrededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud.

**Tynnu neu ddiwygio ardaloedd cynefinoedd ar haen gyfyngiadau - cyfeiriwch at ganllawiau**

- Arolwg / adroddiad ecolegol (gyda thystiolaeth o brofiad / cymwysterau'r ecolegydd/agronomegydd)
- Ffotograffau wedi'u geo-dagio o'r safle
- Cadarnhad a yw Asesiad Effaith Amgylcheddol ar yr ardal / cae wedi'i gynnal ar unrhyw adeg
- Gwybodaeth am reoli - e.e. pryd neu os caiff ei ailhadu, defnyddio gwrtaith, pori ac a gymerir silwair neu wair

### Cynllun Troi'n Organig

- Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf
- Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol, os oes angen.
- Os ydych chi’n hawlio am gyfradd taliad Garddwriaeth, tystiolaeth bod y cnydau'n cael eu tyfu a'u gwerthu ar raddfa fasnachol, gan gynnwys cyfaint y gwerthiant. (Cofnodion cnydau, derbynneb, anfonebau ac ati)
- Os ydych chi'n hawlio fel Menter Llaeth, tystiolaeth o lythyr o fwriad, gwerthu llaeth organig neu gynhyrchion sy’n deillio o laeth.

### Ffermio Organig - Cymorth

- Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf
- Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant, gan gynnwys cyfaint y gwerthiant
- Os ydych yn hawlio ar gyfer Llaeth, tystiolaeth o werthu llaeth organig neu gynhyrchion sy’n deillio o laeth
- Os oes gennych lai na 3ha o dir amaethyddol cymwys wedi’i gofrestru gyda Taliadau Gwledig Cymru yng Nghymru, mae’n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos dros 550 o oriau llafur safonol.
- Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol

**Neu**

- Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achrededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud.

### Ticiwch y blwch/blychau priodol isod

- ☐ **Rwy'n cyflwyno dogfennau ategol ar-lein.**
- ☐ **Rwy'n cyflwyno dogfennau ategol drwy'r post.**
- ☐ **Nid oes tystiolaeth ddogfennol sy'n berthnasol i'm cais.**
- ☐ **Rwyf eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth ddogfennol.**

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

[Yn ôl i’r cynnwys]

## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi darllen a deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch wrth droed yr adran i fynd yn eich blaen fel y dangosir yn y sgrin lun isod.



Cyflwyno Datganiadau ac Ymrwymiadau

Yn ôl | Safio | Nesaf

Os ydych yn derbyn y datganiadau a'r ymrwymiadau, ticiwch y bocs.

At ddiben hawlio Cynllun Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, rwy'n cadarnhau fy mod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau cysylltiedig yn 2026, fel y nodir yng Nghynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol: canllawiau 2026. Rwy'n ymwybodol o amodau fy Nghais Sengl ac rwyf wedi cadw atynt.

Rwyf wedi darllen, deall a chydymffurfio â’r holl canllawiau perthnasol ar y cynlluniau (ac eithrio pan fo cais i lacio rheolau wedi’i gymeradwyo), yn enwedig Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol: canllawiau 2026 sy’n cynnwys Sylfaen Reoleiddio’r SFS, y Cod i Bawb, Cynefin 10% a Gweithredoedd Cyffredin (ac eithrio pan fo rhanddirymiad wedi ei gymeradwyo) a’r Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026, ac unrhyw reolau cynlluniau eraill ar gyfer y cynlluniau yr wyf yn hawlio taliad amdanynt.

Os byddaf yn hawlio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol ar Dir Comin, rwy’n deall y bydd yn rhaid imi allu troi da byw addas allan yn seiliedig ar yr hawliau i bori arno, a rhoi sylw dyledus i’r holl ofynion rheoli perthnasol (os yn berthnasol) sydd yn eu lle ar y tir comin er budd Iechyd Anifeiliaid neu Reoli Cynefin.

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol - Blwyddyn Hawlio 2026**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cydymffurfio â'r gofynion a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys:

- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025

**Cynlluniau Coetir a Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol - Blwyddyn Hawlio 2026**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cydymffurfio â'r gofynion sydd yng Nghyfraith berthnasol y Gyfraith a Gymathwyd ac mewn cyfraith ddomestig, gan gynnwys:

- Rheoliad 1305/2013, Rheoliad Dirprwyedig 807/2014 a Rheoliad Gweithredu 808/2014 y Cyngor;

- Rheoliad 1303/2013 y Cyngor;

- Rheoliad 1306/2013, Rheoliad Dirprwyedig 640/2014 a Rheoliad Gweithredu 809/2014 y Cyngor;

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222 (Cy.327);

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Gweinyddu a Rheoli Integredig a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223 (Cy.328) fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd, gan gynnwys gan Reoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/400 (Cy.129)

Rwy'n cadarnhau fy mod yn ymwybodol o holl ofynion y contractau a/neu ddyfarniadau grant o dan y Cynlluniau Coetir a Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol yr wyf yn elwa arnynt ac fy mod wedi cydymffurfio â nhw.

**Cyffredinol**

Byddaf yn caniatáu swyddogion sydd ag awdurdod yr Adran(nau) Amaeth perthnasol a'u hasiantwyr awdurdodedig a'r sawl all ddod gyda nhw, i ddod ar y tir rwy'n ei ffermio i archwilio tir, anifeiliaid, offer, cyfleusterau storio a chofnodion fferm (gan gynnwys cofnodion cyfrifiadurol) perthnasol ac unrhyw agweddau eraill ar y fferm i gadarnhau bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir a byddaf yn rhoi pob help rhesymol iddynt i'r diben hwnnw. Deallaf y caiff fy hawliadau eu gwrthod os byddaf i neu fy nghynrychiolydd yn atal unrhyw un o’r uchod rhag cael ei gyflawni.

Byddaf yn cadw, am gyfnod o 10 mlynedd, yr holl gofnodion a gwybodaeth a byddaf yn eu darparu i swyddogion yr Adran(nau) Amaeth perthnasol neu eu hasiantwyr awdurdodedig sy'n gofyn amdanynt, o fewn cyfnod a bennir ganddynt, mewn cysylltiad â'r cais hwn ac i gadarnhau fy mod yn cadw at yr ymrwymiadau a'r datganiadau hyn.

Byddaf, os bydd yr Adran Amaeth berthnasol yn gofyn imi, yn ad-dalu unrhyw gymorth a gaf, ynghyd â'r llog, os byddaf yn torri'r rheolau neu'r datganiadau neu'r ymrwymiadau yn y cais hwn. Byddaf yn ad-dalu pan ofynnir imi unrhyw gymorth y bydd yr Adran wedi'i dalu yn ormod imi, boed hynny oherwydd camgymeriad gan Lywodraeth Cymru neu beidio.

Rwy'n deall y gall y ddeddfwriaeth berthnasol newid o dro i dro. Rwy'n derbyn y gall fod angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau ac rwy'n cytuno i gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod imi amdanynt.

Rwy'n ymwybodol o'r amgylchiadau lle gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio a / neu rannu'r wybodaeth a ddarperir ar y SAF ac mewn unrhyw ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â chais am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir a Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Opsiynol. Mae’r amgylchiadau hynny’n cynnwys defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chreu neu a geir mewn cysylltiad â cheisiadau o'r fath (gan gynnwys manylion taliadau a wneir i mi / fy musnes). Rwy'n cytuno y ceir datgelu neu gyfnewid gwybodaeth yn unol âr gofyn.

Rwy'n deall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Rheoliad 1306/2013 y Cyngor, Rheoliad 908/2014 Y Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025, Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 679/2016. Rwy'n deall y caiff gwybodaeth arall hefyd ei datgelu os bydd y gyfraith yn caniatáu.

Rwyf wedi datgelu manylion yr holl gytundebau neu grantiau rheoli rwyf yn eu derbyn neu'n bwriadu ymgeisio amdanynt lle ceir potensial i'm talu ddwywaith.

Mae'r manylion rwyf wedi'u rhoi ar y cais hwn a'r dogfennau cysylltiedig, hyd eithaf fy ngwybod a'm cred, yn wir, yn gywir ac yn gyflawn. Rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth sydd wedi'i rhag-gofnodi gan gadarnhau ei bod yn gywir.

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru'n dangos 'Camgymeriadau' a 'Gwybodaeth' yn yr adrannau ac yn y crynodeb er mwyn fy helpu i lenwi a chyflwyno'r cais. Rwy'n deall nad cadarnhad fy mod wedi hawlio taliad ar y caeau a fwriadwyd nac o gywirdeb y cais ydyw. Fy nghyfrifoldeb i yw cadarnhau bod fy hawliad wedi'i wneud yn gywir.

Byddaf yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y cais hwn a'r dogfennau cysylltiedig.

**Gellid erlyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug neu sydd ddim yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y cais hwn. Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu fethiant i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y cais hwn arwain at golli'r hawl i daliad a/neu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud.**

☐ **Rwyf wedi darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau uchod ac yn cytuno arnynt.**

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Cyflwyno

Mae'ch SAF nawr yn barod ichi ei chyflwyno. Os ydych yn barod i'w chyflwyno, cliciwch ar 'Anfon' fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Ar ôl ichi wneud, caiff eich SAF ei hanfon at Lywodraeth Cymru.

Byddwch wedyn yn gallu cyflwyno unrhyw Dystiolaeth Ddogfennol sydd ei hangen ar eich cais, naill ai trwy 'ch Negeseuon RPW Ar-lein neu drwy'r post neu'n bersonol os oes angen dogfennau gwreiddiol.

Bydd Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sydd heb yr hawl i 'Gyflwyno Hawliadau' yn gallu safio'r SAF a threfnu bod y cwsmer yn ei chyflwyno.

**Cofiwch – rhaid cyflwyno pob SAF erbyn 15 Mai 2026, neu erbyn 9 Mehefin 2026 gyda chosbau. Byddwn yn gwrthod unrhyw SAF ar ôl y dyddiad hwn.**

**Dogfennau Ategol**

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yr Haen Gyffredinol o ran **y rheol 550 awr** os yw'n berthnasol, yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

**Sylwer**: Rhaid cyflwyno dogfennaeth ategol i gefnogi dileu neu ddiwygio ardaloedd cynefin ar haen gyfyngedig erbyn **31 Rhagfyr 2026**. Mae hwn wedi'i ddiwygio o'r 15 Mai 2026 a restrir ar y sgrin. Os na dderbynnir y dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, gwrthodir dileu neu ddiwygio'r cynefin.

Rhaidi chi lenwi'ch **Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS** i gadarnhau'ch bod wedi cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol erbyn **15 Ionawr 2027**. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud hyd nes y byddwn wedi derbyn cadarnhad fod yr holl Weithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau.

Iddyn nhw allu cefnogi'ch cais, rhaid cyflwyno dogfennau i gefnogi **Ffermio Organig - Cymorth** erbyn **31 Rhagfyr 2026**. Ni fydd modd eich talu nes bod y dystiolaeth yn cyrraedd. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2026, byddwn yn gwrthod eich cais.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Orgaing** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **31 Rhagfyr 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Gall methu bodloni telerau ac amodau'r Contract a/neu Ddyfarniad Grant arwain at ganslo eich Contract/Dyfarniad Grant a/neu adennill y taliadau sydd eisoes wedi cael eu talu ichi.

Cyflwynwch eich tystiolaeth ddogfennol naill ai trwy negeseuon RPW Ar-lein, neu drwy'r post.




Ar ôl ichi gyflwyno'ch SAF, byddwn yn anfon neges atoch a fydd yn cynnwys copi o'ch cais, copi o'r crynodeb y byddwch wedi'u cyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys y Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio ar y dudalen olaf. Cewch hefyd brintio derbynneb gyda'r dyddiad arno.

[Yn ôl i'r cynnwys]

# Manylion Cysylltu

## Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein i holi'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.  Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004
Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA

Mae amserau agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

- 2 o Fawrth i 15 o Fai 2026 (ac eithrio Gwyliau Banc):
  Llun i Gwener: 09:00am i 4:00pm

## Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal

Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor trwy apwyntiad yn unig.

| | |
|---|---|
| Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Teras Picton<br>Caerfyrddin SA31 3BT | Swyddfa Ranbarthol Llandrindod<br>Llywodraeth Cymru<br>Neuadd y Sir<br>Spa Road East<br>Llandrindod LD1 5LG |
| Swyddfa Ranbarthol Caernarfon<br>Llywodraeth Cymru<br>Doc Fictoria<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1TH | |

## Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru a chofrestru am e-gylchlythyr Materion Gwledig fydd yn cael ei e-bostio atoch.

### Gwlad

E-gylchlythyr Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn clywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad trwy fynd i: wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ôl i'r cynnwys



